# Gwerth Economaidd y sector Gofal Cymdeithasol i Oedolion - Cymru

## Adroddiad terfynol

05 Mehefin 2018

# Gwerth Economaidd y sector Gofal Cymdeithasol i Oedolion - Cymru

## Adroddiad terfynol

Adroddiad a gyflwynir gan ICF Consulting Limited

Dyddiad: 05 Mehefin 2018

Rhif Gwaith 30301592

James Kearney

ICF Consulting Limited
Watling House
33 Cannon Street
Llundain
EC4M 5SB

T +44 (0)20 3096 4800
F +44 (0)20 3368 6960

www.icf.com

# Cynnwys


Byrfoddau ..... ii

Crynodeb Gweithredol ..... iv

Nodweddion y sector ..... v
Gwerth economaidd uniongyrchol y sector gofal cymdeithasol i oedolion ..... vi
Gwerth economaidd anuniongyrchol ac a achosir y sector gofal cymdeithasol i oedolion ..... viii
Dangosyddion allweddol ..... viii

Cyflwyniad ..... 1

Nodau ymchwil ..... 1
Diben yr adroddiad ..... 1
Strwythur yr adroddiad hwn ..... 2

Nodweddion y sector ..... 3

Nifer y darparwyr gwasanaethau ..... 3
Nifer y swyddi ..... 6
Crynodeb ..... 9

Y dull incwm ..... 11

Enillion – y sector a reoleiddir a’r sector cyhoeddus ..... 11
Enillion – sector heb ei reoleiddio ..... 12
Gwarged Gweithredu Gros ..... 13
Cyflogwyr uniongyrchol ..... 15
GVA amcangyfrifedig ..... 16

Y dull gwariant ..... 17

Ariannu sector cyhoeddus a chyd-ariannu ..... 17
Hunan-ariannu ..... 18
GVA amcangyfrifedig ..... 19

Y dull allbwn ..... 22

Allbwn o ofal preswyl ..... 22
Allbwn o ofal cymdeithasol dibreswyl i oedolion ..... 23
GVA amcangyfrifedig ..... 24

Effeithiau anuniongyrchol ac effeithiau a achosir ..... 26

Cyflwyniad ..... 26
Effeithiau anuniongyrchol ..... 26
Effeithiau a Achosir ..... 28
Cyfraniad y sector gofal cymdeithasol i oedolion yng Nghymru yn ei gyfanrwydd ..... 30
Casgliad 31
Crynodeb o’r canfyddiadau ..... 31
Meincnodi ..... 32
Cymariaethau cenedlaethol ..... 33

Dadansoddiad sensitifrwydd ..... 12

Llyfryddiaeth ..... 17

# Byrfoddau

## Acronymau a diffiniadau

| Acronym | Teitl llawn |
|---|---|
| ABS | Arolwg Busnes Blynyddol |
| APS | Arolwg Poblogaeth Blynyddol |
| ASHE | Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion |
| CH | Tŷ'r Cwmnïau |
| CIW | Arolygiaeth Gofal Cymru |
| CQC | Y Comisiwn Ansawdd Gofal |
| EBITDAR | Enillion cyn llog, trethi, dibrisiant, amorteiddio, a chostau ailstrwythuro neu rent |
| EBITDA | Enillion cyn llog, trethi, dibrisiant, amorteiddio |
| FTE | Cyfwerth ag Amser Llawn (37 awr yr wythnos) |
| GVA | Gwerth Ychwanegol Gros |
| IDBR | Cofrestr Busnes Rhyngadrannol |
| Tablau I-O | Tablau Mewnbwn-Allbwn |
| LFS | Arolwg o'r Llafurlu |
| NMDS-SC | Set Ddata Ofynnol Genedlaethol - Gofal Cymdeithasol |
| ONS | Swyddfa Ystadegau Gwladol |
| PAs | Cynorthwyydd Personol |
| PAYE | Talu Wrth Ennill |
| PSSRU | Uned Ymchwil Gwasanaethau Cymdeithasol Personol |
| SCWDP | Rhaglen Datblygu’r Gweithlu Gofal Cymdeithasol |
| SfC | Sgiliau Gofal |
| SfCD | Sgiliau Gofal a Datblygu |
| SIC | Dosbarthiad Diwydiannol Safonol |

## Diffiniadau o dermau allweddol

| Term allweddol | Diffiniad |
|---|---|
| Asiantaeth | Sefydliad sy'n darparu gweithwyr dros dro i ddarparwyr gwasanaethau |
| Gofal Cymunedol | Gwasanaethau gofal cymdeithasol sy'n digwydd yn y gymuned ac nid mewn lleoliad sefydlog |
| Gofal Dydd | Gofal a ddarperir ar gyfer defnyddwyr gwasanaethau mewn canolfan gofal dydd (dibreswyl) neu ddarparu gweithgareddau y tu allan i'r cartref. |
| Derbynnydd Taliad Uniongyrchol | Unigolyn sy'n derbyn taliad gan y Llywodraeth neu awdurdod lleol i dalu am ei ofal ei hun, n hytrach na chael gofal rhagnodedig a ddarperir iddo. |
| Gofal cartref | Gofal a ddarperir yng nghartref defnyddiwr gwasanaethau neu gartref teuluol |
| Annibynnol | Darparwyr gofal cymdeithasol i oedolion yn y sectorau preifat a gwirfoddol |

| Term allweddol | Diffiniad |
|---|---|
| Heb ei reoleiddio | Cyflogwyr yn y sector gofal cymdeithasol i oedolion nad ydynt yn destun arolygiadau na rheoleiddio |
| Gofal Nyrsio | Gofal a ddarperir mewn lleoliad preswyl sy'n gofyn am ofal nyrsio |
| Preifat | Cyflogwyr yn y sector gofal cymdeithasol i oedolion sy'n eiddo i fentrau preifat er elw |
| Cyhoeddus | Cyflogwyr yn y sector gofal cymdeithasol i oedolion sy’n eiddo i, ac a weithredir gan awdurdodau lleol y Llywodraeth a'r GIG. |
| Rheoleiddiedig / a reoleiddir | Cyflogwyr yn y sector gofal cymdeithasol i oedolion sy'n cael eu harolygu a'u rheoleiddio gan yr arolygwyr gofal cymdeithasol cenedlaethol |
| Gofal preswyl | Gofal a ddarperir mewn lleoliad preswyl yn hytrach nag yng nghartref y defnyddiwr gwasanaethau neu gartref teuluol |
| Defnyddiwr Gwasanaethau | Unigolyn sy'n defnyddio gwasanaethau gofal cymdeithasol i oedolion |
| Gwirfoddol | Cyflogwyr yn y sector gofal cymdeithasol i oedolion sy'n eiddo i sefydliadau dielw |

# Crynodeb Gweithredol

## Canfyddiadau Allweddol

### *Nodweddion y Sector*

- Amcangyfrifwyd bod 2,070 o safleoedd ynghlwm wrth ddarparu gofal cymdeithasol i oedolion yng Nghymru yn 2016. Darparwyr gofal nyrsio yw'r rhan fwyaf o'r safleoedd hyn. Mae 1,700 o unigolion eraill yn derbyn taliadau uniongyrchol ac yn cyflogi Cynorthwywyr Personol (PAs);
- Amcangyfrifwyd bod 79,800 o swyddi yn y sector gofal cymdeithasol i oedolion yng Nghymru yn 2016. Roedd y rhan fwyaf o'r swyddi hyn yn ymwneud â darparu gofal preswyl. Roedd yna 3,600 o swyddi pellach oherwydd unigolion yn cyflogi PAs, gan olygu bod cyfanswm o 83,400 o swyddi yn y sector gofal cymdeithasol i oedolion yn 2016;
- Amcangyfrifwyd bod 60,000 o swyddi Cyfwerth ag Amser Llawn (FTEs) yn y sector gofal cymdeithasol i oedolion yng Nghymru, a 1,600 pellach o FTEs a gyflogir fel PAs;
- Roedd y rhan fwyaf o'r gweithlu gofal cymdeithasol i oedolion sy'n darparu gwasanaethau rheoledig yn cael eu cyflogi mewn safleoedd sy'n cael eu rhedeg gan ddarparwyr sector preifat (44,500);
- Mae lefel y gyflogaeth yn y sector gofal cymdeithasol i oedolion yn cynrychioli 6% o'r holl gyflogaeth yng Nghymru; a
- Amcangyfrifir bod y cyflog cyfartalog yn y sector gofal cymdeithasol i oedolion yng Nghymru yn £16,900.

### *Gwerth Economaidd y Sector*

- Amcangyfrifwyd mai £1.2 biliwn oedd GVA y sector gofal cymdeithasol i oedolion (gan ddefnyddio'r dull incwm). Amcangyfrifwyd bod y mwyafrif o hyn mewn gofal preswyl (£328 miliwn, 29%);
- Mae hyn yn cynrychioli 1.9% o gyfanswm GVA yng Nghymru;
- Amcangyfrifwyd mai £18,700 oedd y lefel gyfartalog o gynhyrchiant (GVA a gynhyrchir fesul FTE) yn y sector gofal cymdeithasol i oedolion; a
- Amcangyfrifir bod GVA yn y sector gofal cymdeithasol oedolion yng Nghymru yn uwch na Amaethyddiaeth, coedwigaeth a physgota, Y celfyddydau, adloniant a hamdden a Chyflenwad Dwr; carthffosiaeth a rheoli gwastraff.

### *Gwerth anuniongyrchol ac ysgogol y sector*

- Amcangyfrifwyd bod effaith anuniongyrchol y sector gofal cymdeithasol i oedolion (sy'n deillio o brynu nwyddau a gwasanaethau canolraddol gan y sector gofal cymdeithasol i oedolion wrth gyflawni y gwasanaethau) yn cyfrannu 31,200 o swyddi pellach (23,000 FTE) a £554 miliwn o GVA i economi Cymru;
- Amcangyfrifir bod effaith ysgogol y sector gofal cymdeithasol i oedolion (sy'n deillio o bryniadau a wnaed gan y rhai a gyflogir yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol yn y sector gofal cymdeithasol i oedolion) yn cyfrannu 12,200 o swyddi pellach (9,000 FTE) a £543 miliwn o GVA i economi Cymru ; a
- Amcangyfrifwyd mai cyfanswm uniongyrchol, anuniongyrchol a chymhelledig y sector gofal cymdeithasol i oedolion yng Nghymru oedd 126,800 o swyddi (93,600 o FTE) a £ 2.2 biliwn yn 2016.

## Cyflwyniad

Mae Sgiliau Gofal a Datblygu (SfCD) angen amcangyfrifon cadarn o werth economaidd y sector gofal cymdeithasol i oedolion ym mhob un o bedair gwlad y DU. Roedd hyn yn cynnwys:

- Y Gwerth Ychwanegol Gros (GVA) blynyddol a gynhyrchir yn uniongyrchol gan y sector gofal cymdeithasol i oedolion (gan gynnwys gweithgareddau sector cyhoeddus yn y sector yn ogystal â'r sector annibynnol) (effaith uniongyrchol);
- Y lluosydd cadwyn gyflenwi ar gyfer y sector gofal cymdeithasol i oedolion (effaith anuniongyrchol);
- Y lluosydd cyflog ar gyfer y sector gofal cymdeithasol i oedolion (effaith a achosir).

Mae'r adroddiad hwn yn darparu amcangyfrifon ar gyfer y nodau ymchwil hyn i Gymru. Mae’n darparu amcangyfrifon hefyd o gyflogaeth yn sgil y sector gofal cymdeithasol i oedolion (cyflogaeth uniongyrchol, anuniongyrchol ac a achosir) a lefel cynhyrchiant yn y sector (GVA fesul gweithiwr).

## Nodweddion y sector

Mae'r sector gofal cymdeithasol i oedolion yn cynnwys darparwyr gwasanaethau sector cyhoeddus, preifat a gwirfoddol. Mae dros 2,000 o safleoedd yn darparu gwasanaethau gofal cymdeithasol i oedolion, ac mae'r rhan fwyaf o'r rhain (72%) yn cael eu rhedeg gan ddarparwyr gwasanaethau preifat. Mae'r nifer mwyaf o safleoedd (800) yn darparu gofal nyrsio.  Yn ogystal, mae 1,700 o bobl yn derbyn taliadau uniongyrchol ac yn cyflogi eu staff eu hunain yn uniongyrchol (Cynorthwywyr Personol). Crynhoir cyfanswm nifer y safleoedd sy'n darparu gofal cymdeithasol i oedolion yng Nghymru yn Nhabl ES1.1.

Tabl ES1.1  Cyfanswm y safleoedd sy’n darparu gofal cymdeithasol i oedolion yng Nghymru - 2016

| Math o wasanaeth | Nifer y safleoedd lle darperir gwasanaethau |
|---|---:|
| Gofal preswyl | 530 |
| Gofal nyrsio | 820 |
| Gofal cartref | 520 |
| Gofal dydd | 60 |
| Gwasanaethau eraill | 130 |
| Cyflogwyr uniongyrchol | 1,700 |
| **Cyfanswm - ac eithrio cyflogwyr uniongyrchol** | **2,070** |
| **Cyfanswm - gan gynnwys cyflogwyr uniongyrchol** | **3,760** |

*Rhifau wedi eu croni i’r 10 agosaf. Efallai na fydd y cyfanswm yn gyfartal â swm oherwydd talgrynnu.*

Amcangyfrifir bod bron i 80,000 o swyddi (bron i 60,000 FTE) yn y sector gofal cymdeithasol i oedolion yng Nghymru. Mae'r rhan fwyaf o'r rhain yn y sector preifat (62%). O gynnwys cynorthwywyr personol a gyflogir yn uniongyrchol, mae 83,400 o swyddi (61,000 FTE). Mae'r rhan fwyaf o swyddi yn y sector gofal preswyl. Mae cyfanswm nifer y swyddi a FTE yn ôl math o ddarpariaeth i’w weld yn Nhabl ES1.2.

Tabl ES1.2 Nifer y safleoedd sy'n darparu gofal cymdeithasol i oedolion yng Nghymru

| Math o wasanaeth | Swyddi | FTE |
|---|---|---|
| Gofal preswyl | 24,700 | 18,100 |
| Gofal nyrsio | 7,300 | 5,500 |
| Gofal cartref | 23,500 | 16,800 |
| Gofal dydd | 9,100 | 6,800 |
| Gwasanaethau eraill | 15,300 | 12,000 |
| Cyflogwyr uniongyrchol | 3,600 | 1,600 |
| **Cyfanswm - ac eithrio cyflogwyr uniongyrchol** | **79,800** | **60,000** |
| **Cyfanswm - gan gynnwys cyflogwyr uniongyrchol** | **83,400** | **61,600** |

*Rhifau wedi eu croni i'r 10 agosaf.*

## Gwerth economaidd uniongyrchol y sector gofal cymdeithasol i oedolion

Amcangyfrifwyd gwerth economaidd uniongyrchol y sector gofal cymdeithasol i oedolion gan ddefnyddio tri dull gwahanol: y dull mewnbwn; y dull gwariant; a'r dull allbwn. Diben hyn yw cynyddu cadernid yr amcangyfrifon, gan fod cryfderau a gwendidau gydag argaeledd ac ansawdd y data sy'n ofynnol ar gyfer pob un o'r dulliau.

### Y dull incwm

Mae'r dull incwm yn amcangyfrif cyfanswm yr incwm a dderbynnir gan gynrychiolwyr y sector ar ffurf cyflogau, a incwm arall. Amcangyfrifwyd y mathau hyn o incwm gan ddefnyddio enillion a'r Gwarged Gweithredu Gros (GOS) a gynhyrchwyd yn y sector (elw a rhenti). Yn achos y sector gofal cymdeithasol i oedolion, bydd mwyafrif helaeth yr incwm yn y sector yn cael ei ennill mewn cyflogau a delir i weithwyr gofal cymdeithasol.

Mae Tabl ES1.3 yn dangos y canlyniadau gan ddefnyddio'r dull incwm. Yng Nghymru, yn 2016, amcangyfrifir bod GVA gofal cymdeithasol i oedolion yn £1.1 biliwn gan ddefnyddio'r dull hwn. Amcangyfrifir bod y gyfran fwyaf o GVA yn y sectorau gofal preswyl (29% o gyfanswm gwerth y sector).

Tabl ES1.3 Amcangyfrifon o enillion gofal cymdeithasol i oedolion a GVA cysylltiedig

| | Enillion (£'000) | GOS (£'000) | Amcangyfrifon GVA (£'000) |
|---|---|---|---|
| Gofal preswyl | 298,412 | 29,600 | 328,012 |
| Gofal nyrsio | 92,583 | 57,734 | 150,317 |
| Gofal cartref | 258,333 | 33,933 | 292,266 |
| Gofal dydd | 114,643 | 0 | 114,643 |
| Gwasanaethau eraill | 242,761 | 0 | 242,761 |
| Cynorthwywyr Personol | 25,549 | 0 | 25,549 |
| **Cyfanswm** | **1,032,281** | **98,839** | **1,153,549** |

## Y dull gwariant

Mae'r dull gwariant yn golygu amcangyfrif cyfanswm y gwariant ar ofal cymdeithasol i oedolion yng Nghymru (cyllid cyhoeddus a phreifat). Yna caiff hyn ei drosi'n GVA (trosiant ar ôl tynnu pryniant nwyddau a gwasanaethau canolraddol) yn seiliedig ar gymarebau trosiant (wedi'i gynrychioli gan wariant) i GVA a ddarperir yn yr Arolwg Busnes Blynyddol (ABS).

Mae Tabl ES1.4 yn dangos canlyniadau gan ddefnyddio'r dull gwariant. Yng Nghymru, yn 2016, amcangyfrifir bod GVA gofal cymdeithasol i oedolion yn £1.2 biliwn gan ddefnyddio'r dull hwn. Amcangyfrifir bod y gyfran fwyaf o GVA yn y sectorau gofal preswyl a (42% o gyfanswm gwerth y sector).

Tabl ES1.4 Amcangyfrifon o wariant gofal cymdeithasol i oedolion a GVA cysylltiedig

| | Cyfanswm gwariant (£'000) | Cymhareb trosiant i GVA | GVA (£'000) |
|---|---|---|---|
| Gofal preswyl | 652,122 | 77% | 502,078 |
| Gofal nyrsio | 264,360 | 80% | 210,656 |
| Gofal cartref | 369,843 | 49% | 179,771 |
| Gofal dydd | 141,626 | 49% | 68,841 |
| Gwasanaethau eraill | 300,648 | 67% | 200,342 |
| Cynorthwywyr Personol | 61,936 | 67% | 41,272 |
| **Cyfanswm** | **1,790,535** | | **1,202,959** |

## Y dull allbwn

Mae'r dull allbwn yn mesur allbwn y sector trwy amcangyfrif nifer yr unedau o bob math o wasanaeth a ddarperir, a lluosi hyn gyda chost uned ar gyfer y gwasanaeth. Mae hyn yn amcangyfrif cyfanswm lefel yr allbwn (sy'n gyfwerth â throsiant) yn y sector, sydd wedyn yn cael ei drosi'n GVA.

Mae Tabl ES1.5 yn dangos y canlyniadau gan ddefnyddio'r dull allbwn. Yng Nghymru, ym 2016, amcangyfrifir bod GVA gofal cymdeithasol i oedolion yn £1.2 biliwn gan ddefnyddio'r dull hwn. Amcangyfrifir bod y gyfran fwyaf o GVA yn y sectorau gofal preswyl a gofal nyrsio (63% o gyfanswm gwerth y sector).

Tabl ES1.5 Amcangyfrifon allbwn gofal cymdeithasol i oedolion a GVA cysylltiedig

| | Cyfanswm allbwn (£'000) | Cymhareb trosiant i GVA | GVA (£'000) |
|---|---|---|---|
| Gofal preswyl | 501,402 | 77% | 386,037 |
| Gofal nyrsio | 448,394 | 80% | 357,304 |
| Gofal cartref | 383,486 | 49% | 186,402 |
| Gofal dydd | 88,930 | 49% | 43,226 |
| Gwasanaethau eraill | 300,648 | 67% | 200,342 |
| Taliadau uniongyrchol | 22,530 | 49% | 10,951 |
| **Cyfanswm** | **1,829,119** | | **1,184,262** |

## Gwerth economaidd anuniongyrchol ac a achosir y sector gofal cymdeithasol i oedolion

Mae'r amcangyfrifon uchod yn disgrifio gwerth economaidd uniongyrchol y sector gofal cymdeithasol i oedolion. Mae'r sector hefyd yn cyfrannu at yr economi trwy:

- **Effeithiau anuniongyrchol** - sy'n deillio o brynu nwyddau a gwasanaethau canolraddol gan y sector gofal cymdeithasol i oedolion wrth ddarparu ei wasanaethau, sy'n cefnogi cyflogaeth ychwanegol a GVA o fewn ei gadwyn gyflenwi;
- **Effeithiau a achosir** - yn deillio o bryniadau a wneir gan y rheiny sy'n cael eu cyflogi'n uniongyrchol ac anuniongyrchol yn y sector gofal cymdeithasol i oedolion, sy'n defnyddio eu henillion i brynu nwyddau a gwasanaethau eraill.

Amcangyfrifir bod effeithiau anuniongyrchol pryniannau canolraddol a wneir gan y sector gofal cymdeithasol oedolion yn cyfrannu 31,000 o swyddi ychwanegol[1] a rhwng £554 miliwn a £583 miliwn o GVA yng Nghymru.

Amcangyfrifir bod yr effeithiau a achosir (sy'n gysylltiedig â phrynu nwyddau a gwasanaethau gan unigolion a gyflogir yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol gan y sector) yn cynnal 12,000 o swyddi pellach a £543 miliwn i £567 miliwn o GVA yn yr economi ehangach. Mae'r rhain yn debyg o ran maint i'r effaith GVA anuniongyrchol, ond yn llai na'r effaith anuniongyrchol ar gyflogaeth.

## Dangosyddion allweddol

Dangosir canfyddiadau allweddol yr ymchwil yn Nhabl ES1.6. Mae’n cyflwyno amcangyfrifon sy'n dangos y canlynol:

- Mae yna dros 83,000 o swyddi yn y sector gofal cymdeithasol i oedolion, ac roedd bron i 62,000 o swyddi FTE. Mae'r swyddi hyn yn cynhyrchu tua £1.2 biliwn mewn GVA, ac amcangyfrifwyd bod y lefel o gynhyrchiant (GVA fesul FTE) rhwng £18,700 a £19,500 fesul swydd FTE.
- Amcangyfrifir mai effaith anuniongyrchol y sector gofal cymdeithasol i oedolion yw dros 31,000 o swyddi (neu 23,000 FTE) a rhwng £554 miliwn a £583 miliwn mewn GVA. Mae’r effaith anuniongyrchol yn sgil prynu nwyddau a gwasanaethau canolraddol gan y sector gofal cymdeithasol i oedolion.
- Amcangyfrifir mai effaith a achosir y sector gofal cymdeithasol i oedolion (gwariant ychwanegol gan y rheiny sy'n cael eu cyflogi'n uniongyrchol ac yn anuniongyrchol drwy'r sector gofal cymdeithasol oedolion) yw cyflogi dros 12,000 (9,000 o swyddi FTE) a rhwng £545 miliwn a £567 miliwn o GVA.

Amcangyfrifir bod gwerth uniongyrchol, anuniongyrchol ac a achosir y sector gofal cymdeithasol i oedolion yng Nghymru yn bron i 127,000 o swyddi, bron i 94,000 o swyddi FTE a rhwng £2.2 biliwn a £2.4 biliwn o GVA.

### Tabl ES1.6 Crynodeb o’r canfyddiadau

| | Dull incwm | Dull gwariant | Dull allbwn |
|---|---|---|---|
| Cyfanswm cyflogaeth uniongyrchol | | 83,400 | |
| Cyfanswm cyflogaeth FTE | | 61,600 | |

[1] Swyddi yw’r rhain, nid FTE

| | Dull incwm | Dull gwariant | Dull allbwn |
|---|---|---|---|
| Cyfanswm GVA uniongyrchol (£'000) | 1,153,549 | 1,202,959 | 1,184,262 |
| Amcangyfrif o gynhyrchiant fesul swydd (£) | 13,800 | 14,400 | 14,200 |
| Amcangyfrif o gynhyrchiant fesul FTE (£) | 18,700 | 19,500 | 19,200 |
| Cyflogaeth anuniongyrchol (swyddi) | 31,200 | | |
| Cyflogaeth anuniongyrchol (FTE) | 23,000 | | |
| Cyflogaeth a achosir (swyddi) | 12,200 | | |
| Cyflogaeth a achosir (FTE) | 9,000 | | |
| Cyfanswm swyddi yn sgil gweithgarwch gofal cymdeithasol i oedolion | 126,800 | | |
| Cyfanswm swyddi FTE yn sgil gweithgarwch gofal cymdeithasol i oedolion | 93,600 | | |
| GVA anuniongyrchol (£'000) | 553,738 | 580,604 | 562,020 |
| GVA a achosir (£'000) | 542,532 | 567,406 | 554,924 |
| Cyfanswm GVA yn sgil gweithgarwch gofal cymdeithasol i oedolion (£'000) | 2,249,820 | 2,352,970 | 2,301,207 |

Holl ffigyrau cyflogaeth wedi eu croni i'r 100 agosaf, ffigyrau cynhyrchiant wedi eu croni i'r £100 agosaf.

# 1. Cyflwyniad

Sgiliau Gofal a Datblygu (SfCD) yw'r cyngor sgiliau sector ar gyfer pobl sy'n gweithio ym maes gwasanaethau blynyddoedd cynnar, plant a phobl ifanc, a'r rhai sy'n gweithio ym maes gwaith cymdeithasol a gofal cymdeithasol i oedolion a phlant yn y DU. Mae ganddynt bedwar sefydliad partner, un ym mhob un o wledydd y DU. Y rhain yw *Skills for Care* (SfC) yn Lloegr; *Northern Ireland Social Care Council* yng Ngogledd Iwerddon; *Scottish Social Services Council* (SSSC) yn yr Alban; a Gofal Cymdeithasol Cymru yng Nghymru.

Mae SfCD angen amcangyfrifon cadarn o werth economaidd cyfredol y sector gofal cymdeithasol i oedolion ym mhob un o bedair gwlad y DU. Bydd y gwaith yma yn cael ei ddefnyddio mewn trafodaethau a phenderfyniadau polisi ynglŷn â'r sector. Bydd y sylfaen dystiolaeth yn dangos sut mae'r sector yn cyfrannu at yr economi. Gall fod o gymorth i ddylanwadu ar farn y rhai sy'n gwneud penderfyniadau sy'n gweld gofal cymdeithasol fel rhywbeth sy'n llyncu arian neu'n faich ar yr economi.

## 1.1. Nodau ymchwil

Yr amcan ar gyfer y gwaith ymchwil hwn yw amcangyfrif gwerth economaidd gwasanaethau'r sector gofal cymdeithasol i oedolion yn y DU, a gwerth y sector ym mhob un o'r pedair gwlad yn unigol. Mae hyn yn cynnwys:

- Y Gwerth Ychwanegol Gros (GVA) blynyddol a gynhyrchir yn uniongyrchol gan y sector gofal cymdeithasol i oedolion (gan gynnwys gweithgareddau sector cyhoeddus yn y sector yn ogystal â'r sector annibynnol) (effaith uniongyrchol);
- Y lluosydd cadwyn gyflenwi ar gyfer y sector gofal cymdeithasol i oedolion (effaith anuniongyrchol);
- Y lluosydd cyflog ar gyfer y sector gofal cymdeithasol i oedolion (effaith a achosir).

Mae'r adroddiad yn cyflwyno metrigau allweddol ychwanegol sy'n dangos pwysigrwydd economaidd y sector, gan gynnwys:

- Cyflogaeth (cyflogaeth uniongyrchol, cyflogaeth anuniongyrchol ac a achosir);
- Cynhyrchiant - GVA fesul gweithiwr ar gyfer y sector gofal cymdeithasol i oedolion. Mae hwn yn fesur allweddol i'r Trysorlys wrth asesu gwerth economaidd.

## 1.2 Diben yr adroddiad

Mae'r adroddiad yn cyflwyno gwerth economaidd amcangyfrifedig y sector gofal cymdeithasol i oedolion yng Nghymru. Mae gwerth economaidd y sector wedi'i gyfrifo gan ddefnyddio tri dull gwahanol: y dull mewnbwn; y dull gwariant; a'r dull allbwn. Amcan hyn yw cynyddu cadernid yr amcangyfrifon, gan fod cryfderau a gwendidau gydag argaeledd ac ansawdd y data sy'n ofynnol ar gyfer pob un o'r dulliau.

Llywiwyd y fethodoleg a ddefnyddiwyd i amcangyfrif gwerth economaidd y sector gofal cymdeithasol i oedolion yng Nghymru trwy ymgynghori â grŵp llywio'r prosiect yng Nghymru ac adolygiad o lenyddiaeth berthnasol. Gwnaed gwaith mapio manwl o'r data priodol a oedd ar gael o fewn y fframwaith methodolegol a gytunwyd.

Dilynwyd hyn drwy gasglu data addas a'r amcangyfrif dilynol o werth economaidd y sector.

## Strwythur yr adroddiad hwn

Mae'r adroddiad yn parhau yn yr adrannau canlynol:

- Mae Adran 2 yn disgrifio maint a strwythur y sector gofal cymdeithasol i oedolion;
- Mae Adran 3 yn amcangyfrif gwerth economaidd uniongyrchol y sector gofal cymdeithasol i oedolion gan ddefnyddio'r dull mewnbwn;
- Mae Adran 4 yn amcangyfrif gwerth economaidd uniongyrchol y sector gofal cymdeithasol i oedolion gan ddefnyddio'r dull gwariant;
- Mae Adran 5 yn amcangyfrif gwerth economaidd uniongyrchol y sector gofal cymdeithasol i oedolion gan ddefnyddio'r dull allbwn;
- Mae Adran 6 yn amcangyfrif gwerth economaidd a achosir ac anuniongyrchol y sector gofal cymdeithasol i oedolion;
- Mae Adran 7 yn cyflwyno'r casgliadau o'r gwaith ymchwil, gan gynnwys y dangosyddion economaidd allweddol a chymariaethau â gwaith ymchwil arall a sectorau economaidd eraill.
- Mae Annex 1 yn darparu mwy o fanylion am y fethodoleg a ddefnyddiwyd i amcangyfrif effaith economaidd y sector gofal cymdeithasol i oedolion yng Nghymru;
- Mae Annex 2 yn dangos canlyniadau dadansoddiad sensitifrwydd, lle mae rhai 'r tybiaethau a ddefnyddiwyd wrth gyfrifo gwerth economaidd y sector wedi cael eu hamrywio.

# 2 Nodweddion y sector

Mae'r adran hon yn darparu nodweddion allweddol y sector gofal cymdeithasol i oedolion yng Nghymru. Mae'r nodweddion hyn yn disgrifio maint a strwythur y sector yng Nghymru.

## 2.1 Nifer y darparwyr gwasanaethau

Mae nifer o setiau data penodol i'r sector a rhai'r Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS) wedi'u defnyddio i ddarparu disgrifiad o'r sector gofal cymdeithasol i oedolion yng Nghymru. Mae gwybodaeth a gesglir gan Arolygiaeth Gofal Cymru (CIW, Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru, AGGCC gynt) a Data Cymru, data o Gofrestr Busnes Rhyngadrannol y llywodraeth (IDBR) a gan SfC yn darparu data i amcangyfrif nifer y darparwyr gwasanaethau yng Nghymru.  Mae mwy o fanylion am y fethodoleg i'w gweld yn 0.

### 2.1.1. Darparwyr gwasanaethau a reoleiddir

Mae Arolygiaeth Gofal Cymru'n casglu data o'r holl safleoedd sy'n darparu gwasanaethau gofal a reoleiddir yng Nghymru. Mae'r math o wasanaeth a ddarperir yn y safleoedd hyn yn cael ei gategoreiddio, sy'n golygu y gellir cyflwyno nifer y safleoedd sy'n darparu pob math o wasanaeth gofal cymdeithasol a reoleiddir i oedolion.

Roedd modd nodi nifer y safleoedd sy'n darparu gwasanaethau a reoleiddir, ond nid nifer y darparwyr gwasanaethau (ddim wedi'i gynnwys yn nata AGC). O ddadansoddi'r set ddata ymhellach, a defnyddio gwybodaeth gan Carehome.co.uk[2] a Data Cymru bu modd dadgyfuno'r gwasanaethau yn ôl y math o ddarparwr.

Cyflwynir nifer y safleoedd sy'n darparu gwasanaethau gofal cymdeithasol a reoleiddir i oedolion yn Nhabl 2.1 (mae'n cynnwys100% o'r gwasanaethau a reoleiddir yng Nghymru). I grynhoi, roedd bron i 1,600 o safleoedd yn darparu gofal cymdeithasol a reoleiddir i oedolion yn 2016. Roedd y rhan fwyaf o safleoedd a reoleiddir yn darparu gofal preswyl neu nyrsio (69%). Mae'r nifer fwyaf o safleoedd yn cael eu rhedeg gan ddarparwyr gwasanaethau sector preifat (1,140, 72% o ddarparwyr a reoleiddir).

Tabl 2.1  Nifer y darparwyr gwasanaethau a'r safleoedd - cyflogwyr a reoleiddir, 2016

| Math o ddarparwr | Math o wasanaeth | Nifer y darparwyr gwasanaethau | Nifer y safleoedd sy'n darparu gwasanaethau |
|---|---|---|---|
| Cyhoeddus | Gofal preswyl | - | 100 |
| | Gofal nyrsio | - | - |
| | Gofal cartref | - | 40 |
| | Gofal dydd | - | - |
| | Gwasanaethau eraill | - | - |

[2] Defnyddiwyd hyn i sefydlu pa gartrefi gofal oedd yn gartrefi gofal Awdurdod Lleol, gan nad oedd yn glir o'r cofnodion yng nghronfa ddata Arolygiaeth Gofal Cymru pa gartrefi gofal oedd yn rhai sector cyhoeddus a pha rai oedd yn annibynnol.

| Math o ddarparwr | Math o wasanaeth | Nifer y darparwyr gwasanaethau | Nifer y safleoedd sy'n darparu gwasanaethau |
|---|---|---|---|
| | **Cyfanswm** | **-** | **140** |
| Preifat | Gofal preswyl | - | 130 |
| | Gofal nyrsio | - | 650 |
| | Gofal cartref | - | 350 |
| | Gofal dydd | - | - |
| | Gwasanaethau eraill | - | 10 |
| | **Cyfanswm** | **-** | **1,140** |
| Gwirfoddol | Gofal preswyl | - | 30 |
| | Gofal nyrsio | - | 170 |
| | Gofal cartref | - | 90 |
| | Gofal dydd | - | - |
| | Gwasanaethau eraill | - | - |
| | **Cyfanswm** | - | **300** |
| Cyfanswm | Gofal preswyl | - | 270 |
| | Gofal nyrsio | - | 820 |
| | Gofal cartref | - | 480 |
| | Gofal dydd | - | - |
| | Gwasanaethau eraill | - | 10 |
| | **Cyfanswm** | - | **1,580** |

*Ffynhonnell: CIW: Nifer y gwasanaethau cofrestredig, Adroddiad blynyddol y prif arolygwr (2016); www.Carehome.co.uk; yr Uned Ddata – Cymru Casgliad data'r gweithlu SCWDP 2016; Pob rhif wedi'i dalgrynnu i'r 10 agosaf.*

### 2.1.2. Darparwyr gwasanaethau heb eu rheoleiddio

Nid yw cronfa ddata CIW yn cynnwys unrhyw wybodaeth am ddarparwyr gofal cymdeithasol i oedolion nad ydynt wedi'u rheoleiddio yng Nghymru. Gwasanaethau heb eu rheoleiddio yw'r rhai na chânt eu harolygu gan CIW, ac maent yn cynnwys darparu gofal cymunedol, cyngor a chymorth, gofal nad yw'n bersonol, gofal preswyl ar gyfer unigolion digartref a llochesau menywod.

Er mwyn amcangyfrif nifer y darparwyr gwasanaethau heb eu rheoleiddio, defnyddiwyd gwybodaeth gan yr IDBR, SfC a CIW. Roedd y broses amcangyfrif yn cynnwys y canlynol:

- Cymerwyd data o'r IDBR a ddangosodd gyfanswm y safleoedd lleol yn y dosbarthiadau cod Dosbarthiad Diwydiannol Safonol (SIC) perthnasol.
- Defnyddiwyd gwybodaeth gan SfC i amcangyfrif cyfran y safleoedd lleol hyn a oedd yn darparu gofal cymdeithasol i oedolion (gan fod y dosbarth cod SIC yn cynnwys darparwyr gwasanaethau gofalgar ac elusennol eraill, megis gwasanaethau plant). Cafodd hyn ei luosi gan nifer y safleoedd lleol yn yr IDBR ar gyfer Cymru er mwyn darparu amcangyfrif o gyfanswm y safleoedd gofal cymdeithasol i oedolion.
- Tynnwyd nifer y safleoedd gofal cymdeithasol a reoleiddir i oedolion (a gymerwyd o gronfa ddata CIW) o gyfanswm y safleoedd gofal cymdeithasol i

oedolion. Rhoddodd hyn amcangyfrif o'r nifer o safleoedd gofal cymdeithasol i oedolion heb eu rheoleiddio yng Nghymru.

- Cafwyd cyfran y darparwyr heb eu rheoleiddio ym mhob math unigol o wasanaeth o amcangyfrifon SfC yn Lloegr, a'i gymhwyso i nifer y darparwyr heb eu rheoleiddio yng Nghymru.

Dylid nodi hefyd fod yna anawsterau o ran sut mae busnesau'n disgrifio eu hunain (categori cod SIC) a'r codio a ddarperir yn Arolygiaeth Gofal Cymru. Gall busnesau mawr gynnig gwasanaethau ar draws nifer o gategorïau cod SIC, felly gall fod mewn categori cod SIC gwahanol wrth ddarparu gofal. Mae cyfrifiadau o safleoedd gofal cymdeithasol heb eu rheoleiddio i oedolion wedi'u seilio ar ragdybiaethau a thrin data, ac felly mae'n llai sicr na'r data a gafwyd gan yr Arolygiaeth.
Felly, nid yw amcangyfrifon y sector heb ei reoleiddio mor gadarn ag amcangyfrifon y sector a reoleiddir. Mae mwy o fanylion am y fethodoleg hon i'w gweld yn 0.

Mae Tabl 2.2 yn dangos nifer y safleoedd gofal cymdeithasol heb eu rheoleiddio i oedolion nad ydynt wedi'u rheoleiddio yng Nghymru. I grynhoi, amcangyfrifir bod bron i 500 o leoliadau'n darparu gwasanaethau heb eu rheoleiddio. Amcangyfrifir bod y rhain yn bennaf yn darparu gwasanaethau gofal preswyl yn bennaf (54%).

Tabl 2.2 Nifer y cyflogwyr – cyflogwyr heb eu rheoleiddio, 2016

| Math o ddarparwr | Math o wasanaeth | Nifer y darparwyr gwasanaethau | Nifer y safleoedd sy'n darparu gwasanaethau |
|---|---|---|---|
| Cyfanswm | Gofal preswyl | - | 260 |
| | Gofal nyrsio | - | - |
| | Gofal cartref | - | 40 |
| | Gofal dydd | - | 60 |
| | Gwasanaethau eraill | - | 120 |
| | **Cyfanswm** | **-** | **480** |

*Ffynhonnell: CIW: Nifer y gwasanaethau cofrestredig, Adroddiad blynyddol y prif arolygwr (2016); IDBR; Skills for Care National Minimum Dataset – Social Care; Derbyniwyd y tybiaethau fel rhai rhesymol gan Gofal Cymdeithasol Cymru; Pob rhif wedi'i dalgrynnu i'r 10 agosaf.*

## 2.1.3. Derbynnyd taliadau uniongyrchol

Mae Llywodraeth Cymru'n casglu gwybodaeth ar nifer yr unigolion sy'n derbyn taliadau uniongyrchol, ac yn 2016 amcangyfrifwyd bod 5,900 o oedolion yn derbyn taliadau uniongyrchol gan Awdurdodau Lleol. Gall unigolion ddefnyddio'r arian a gânt drwy daliadau uniongyrchol at wahanol ddibenion, gan gynnwys cyflogi eu staff eu hunain, gofal preswyl neu ofal dydd, neu dalu tanysgrifiadau a thâl aelodaeth i gynorthwyo eu hunain.

Bydd rhai unigolion sy'n cael taliadau uniongyrchol yn cyflogi Cynorthwywyr Personol (PAs) yn uniongyrchol i ddarparu gofal. O'r rhai sy'n defnyddio PAs, bydd rhai'n cyflogi gweithwyr gofal cymdeithasol o asiantaeth. Bydd yr asiantaethau hyn yn cael eu cofnodi yn y data gan CIW. Fodd bynnag, bydd rhai pobl sy'n derbyn taliadau uniongyrchol yn dewis cyflogi PAs yn uniongyrchol. Mae'r unigolion hyn yn gweithredu fel cyflogwyr, ond byddant yn cael eu heithrio o'r data CIW, ac nid ydynt yn cael eu cofnodi yn yr amcangyfrifon uchod.

Gan weithredu ar y dybiaeth bod y sefyllfa yng Nghymru yn debyg i'r sefyllfa yn Lloegr, defnyddiwyd amcangyfrifon SfC i amcangyfrif nifer y derbynwyr taliadau

uniongyrchol sy'n cyflogi PAs yn uniongyrchol yng Nghymru. Mae SfC yn amcangyfrif bod ychydig o dan draean (29%) o bobl sy'n cael taliadau uniongyrchol yn cyflogi PA yn uniongyrchol yn Lloegr. Defnyddiwyd y ganran hon i amcangyfrif nifer y cyflogwyr uniongyrchol yng Nghymru. Yng Nghymru, byddai hyn yn golygu yr amcangyfrifir bod 1,700 o unigolion yn cyflogi Cynorthwyydd Personol (gweler Tabl 2.3).

Tabl 2.3 Nifer y cyflogwyr unigol, 2016

| Math o wasanaeth | |
|---|---|
| Nifer yr unigolion sy'n derbyn taliadau uniongyrchol | 5,900 |
| Y ganran sy'n cyflogi PAs yn uniongyrchol | 29% |
| Amcangyfrif o nifer yr unigolion sy'n cyflogi PAs yn uniongyrchol yng Nghymru | 1,700 |

*Ffynhonnell: StatsCymru - Oedolion sy'n derbyn gwasanaethau yn ôl awdurdod lleol, categori'r cleient ac oedran; Skills for Care 'Individual employers and Personal Assistants'; Pob rhif wedi'i dalgrynnu i'r 100 agosaf.*

## 2.2 Nifer y swyddi

Defnyddiwyd nifer o ffynonellau data i amcangyfrif nifer y swyddi yn y sector gofal cymdeithasol i oedolion yng Nghymru. Mae'r rhain yn cynnwys gwybodaeth a gasglwyd gan Gofal Cymdeithasol Cymru a'r Uned Ddata Cymru, Llywodraeth Cymru ac ymchwil gan SfC. Mae mwy o fanylion am y fethodoleg i'w gweld yn Annex 1. Mae nifer y swyddi yn gysylltiedig a'r holl seyddi yn y sector gofal I oedolion – y rhai sy'n darparu gofal I ddefnyddwyr gwasanaethau a staff cefnogol (glanhawyr, staff diogelwch).

### 2.2.1. Gwasanaethau a reoleiddir a darpariaeth y sector cyhoeddus

Mae Llywodraeth Cymru, trwy ddata a gesglir gan awdurdodau lleol, yn darparu data ar nifer y swyddi sector cyhoeddus yn y sector gofal cymdeithasol i oedolion. Gellir gweld gwahaniaethau yn y data hwn yn ôl y gwasanaethau y mae'r swyddi'n gysylltiedig â nhw, a gellir adnabod swyddi ar gyfer gwasanaethau gofal plant yn hawdd a'u tynnu o'r dadansoddiad. Darperir nifer y swyddi FTE yn y set ddata hefyd.

Mae Gofal Cymdeithasol Cymru'n casglu gwybodaeth am nifer y swyddi mewn gwasanaethau  a reoleiddir a gomisiynir gan awdurdodau lleol. Cesglir hyn yn ymchwil Rhaglen Datblygu'r Gweithlu Gofal Cymdeithasol (SCWDP). Mae'r ymchwil yn caniatáu gwahaniaethu rhwng nifer y swyddi yn ôl y math o wasanaeth a rhwng y math o ddarparwr.

Nid yw ymchwil SCWDP yn darparu nifer y swyddi FTE mewn gwasanaethau a reoleiddir. Fodd bynnag, mae'n rhoi dadansoddiad o ganran y staff sy'n gweithio'n llawn amser ac yn rhan-amser (52% yn gweithio'n llawn amser a 48% yn rhan-amser). Defnyddiwyd y canrannau hyn i amcangyfrif nifer y staff FTE sy'n gweithio mewn gwasanaethau a reoleiddir yn y sector breifat a gwirfoddol.

Mae Tabl 2.4 yn dangos nifer y swyddi a nifer y FTE yn y sector gofal cymdeithasol i oedolion yng Nghymru. Mae'n dangos y canlynol:

- Amcangyfrifir bod 72,100 o swyddi yn y sector, ac mae hyn yn cyfateb i 54,100 o staff FTE;

- Mae'r rhan fwyaf o'r swyddi yn y sector preifat. Amcangyfrifir bod 44,500 o swyddi a 33,800 o FTE (62%)
- Mae yna 16,000 o swyddi sector cyhoeddus yn y sector gofal cymdeithasol i oedolion yng Nghymru, ac mae'r rhain yn llenwi dros 11,000 o swyddi FTE.
- Amcangyfrifir bod 11,700 o swyddi yn y sector gwirfoddol, sy'n cyfateb i 8,900 FTE.

Tabl 2.4 Nifer y swyddi – y sector gyhoeddus a gwasanaethau a reoleiddir, 2016

| Math o ddarparwr | Math o wasanaeth | Swyddi | Cyfartaledd oriau | FTE |
|---|---|---|---|---|
| Cyhoeddus | Gofal preswyl | 3,900 | 24.0 | 2,500 |
| | Gofal nyrsio | - | | - |
| | Gofal cartref | 4,800 | 22.8 | 3,000 |
| | Gofal dydd | 2,600 | 27.4 | 1,900 |
| | Gwasanaethau eraill | 4,700 | 32.0 | 4,100 |
| | **Cyfanswm** | **16,000** | **26.6** | **11,500** |
| Preifat | Gofal preswyl | 13,100 | 28.1 | 9,900 |
| | Gofal nyrsio | 5,800 | 28.1 | 4,400 |
| | Gofal cartref | 14,300 | 28.1 | 10,900 |
| | Gofal dydd | 4,400 | 28.1 | 3,400 |
| | Gwasanaethau eraill | 6,800 | 28.1 | 5,200 |
| | **Cyfanswm** | 44,500 | **28.1** | **33,800** |
| Gwirfoddol | Gofal preswyl | 3,400 | 28.1 | 2,600 |
| | Gofal nyrsio | 1,500 | 28.1 | 1,100 |
| | Gofal cartref | 3,800 | 28.1 | 2,900 |
| | Gofal dydd | 1,200 | 28.1 | 900 |
| | Gwasanaethau eraill | 1,800 | 28.1 | 1,400 |
| | **Cyfanswm** | 11,700 | **28.1** | **8,900** |
| Cyfanswm | Gofal preswyl | 20,400 | | 15,100 |
| | Gofal nyrsio | 7,300 | | 5,500 |
| | Gofal cartref | 22,900 | | 16,700 |
| | Gofal dydd | 8,200 | | 6,200 |
| | Gwasanaethau eraill | 13,400 | | 10,700 |
| | **Cyfanswm** | **72,100** | | **54,100** |

*Ffynhonnell: Uned Ddata Cymru: Adroddiad casglu data'r gweithlu SCWDP Staff adrannau gwasanaethau cymdeithasol awdurdod lleol yn ôl awdurdod lleol a theitl y swydd; Pob rhif wedi'i dalgrynnu i'r 100 agosaf*

### 2.2.2. Darparwyr gwasanaethau heb eu rheoleiddio

Defnyddiwyd y camau canlynol i amcangyfrif nifer y swyddi mewn gwasanaethau gofal cymdeithasol heb eu rheoleiddio i oedolion:

- Cafodd nifer y safleoedd gwasanaeth heb eu rheoleiddio yng Nghymru (gweler Tabl 2.2) ei luosi gyda nifer cyfartalog y swyddi fesul safle sy'n darparu gwasanaethau gofal cymdeithasol heb eu rheoleiddio i oedolion yn Lloegr (data

SfC). Rhoddodd hyn amcangyfrif o gyfanswm nifer y swyddi mewn gwasanaethau heb eu rheoleiddio yng Nghymru.

- Cafodd cyfran y swyddi ym mhob math gwahanol o wasanaeth heb ei reoleiddio yn Lloegr (gofal dydd, gwasanaethau eraill ac ati o ddata SfC) ei luosi gyda chyfanswm nifer y swyddi gofal cymdeithasol heb ei reoleiddio i oedolion yng Nghymru i roi amcangyfrif o swyddi yn ôl y math o wasanaeth.
- Defnyddiwyd yr un rhaniad llawn amser / rhan-amser ag a ddisgrifiwyd yn y sector gwasanaethau a reoleiddir (adran 0) ar gyfer gweithwyr yn y sector heb ei reoleiddio i amcangyfrif nifer y FTE.

Mae Tabl 2.5 yn dangos amcangyfrif o nifer o swyddi mewn gwasanaethau gofal cymdeithasol heb eu rheoleiddio i oedolion. Mae'n dangos yr amcangyfrifir bod yna 7,500 o swyddi a 5,700 o FTE. Mae mwy o fanylion am y fethodoleg hon i'w gweld yn Annex 1.

Tabl 2.5 Nifer y swyddi – y sector heb ei reoleiddio, 2016

| Math o ddarparwr | Math o wasanaeth | Swyddi | Cyfartaledd oriau | FTE |
|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm | Gofal preswyl | 4,300 | 28.1 | 3,300 |
| | Gofal nyrsio | - | - | - |
| | Gofal cartref | 600 | 28.1 | 500 |
| | Gofal dydd | 900 | 28.1 | 700 |
| | Gwasanaethau eraill | 1,900 | 28.1 | 1,400 |
| | **Cyfanswm** | **7,500** | **28.1** | **5,700** |

*Ffynhonnell: CIW: Nifer y gwasanaethau cofrestredig, Adroddiad blynyddol y prif arolygwr (2016); IDBR; Uned Ddata Cymru: Adroddiad casglu data'r gweithlu SCWDP; Skills for Care: Size and Structure of the Adult Social Care sector in England; Pob rhif wedi'i dalgrynnu i'r 100 agosaf.*

### 2.2.3. Cyflogwyr uniongyrchol

Nid oes unrhyw amcangyfrifon swyddogol o nifer y Cynorthwywyr Personol (PAs) a gyflogir yn uniongyrchol yng Nghymru. Mae astudiaeth ddiweddar gan SfC yn Lloegr yn rhoi amcangyfrifon cadarn o nifer y bobl sy'n cyflogi Cynorthwywyr (29% o dderbynnydd taliadau uniongyrchol), nifer y gweithwyr y maent yn eu cyflogi (cyfartaledd o 2.1 gweithiwr am bob cyflogwr) a nifer yr oriau y mae Cynorthwywyr yn eu gweithio bob wythnos (17 awr yr wythnos). Gan ddefnyddio'r gwaith ymchwil hwn a nifer y cyflogwyr uniongyrchol (Tabl 2.3), amcangyfrifir bod yna 3,600 o Gynorthwywyr Personol yng Nghymru. Mae hyn yn cyfateb i 1,600 FTE.

Tabl 2.6 Nifer y Cynorthwywyr Personol

| Math o wasanaeth | Swyddi | Cyfartaledd oriau | FTE |
|---|---|---|---|
| Cynorthwywyr Personol | 3,600 | 17 / wythnos | 1,600 |

*Ffynhonnell: StatsCymru - Oedolion sy'n derbyn gwasanaethau yn ôl awdurdod lleol, categori'r cleient ac oedran; Skills for Care 'Individual employers and Personal Assistants'; Pob rhif wedi'i dalgrynnu i'r 100 agosaf.*

## 2.3. Crynodeb

Mae'r tablau crynodeb isod (Tabl 2.7 a Thabl 2.8) yn dangos crynodeb o faint a strwythur y sector gofal cymdeithasol i oedolion yng Nghymru. Yn 2016, amcangyfrifwyd bod dros 2,000 o safleoedd yn darparu gofal cymdeithasol i oedolion yng Nghymru. Os yw cyflogwyr uniongyrchol yn cael eu cynnwys, mae dros 3,700 o gyflogwyr yn y sector gofal cymdeithasol i oedolion yng Nghymru. Mae bron i 80,000 o swyddi yn y safleoedd hyn (ac eithrio cynorthwywyr personol a gyflogir yn uniongyrchol, mae 83,400 os yw cynorthwywyr personol yn cael eu cynnwys), sy'n cyfateb i tua 60,000 FTE (61,600 wrth gynnwys PAs).

Tabl 2.7 Cyfanswm darparwyr yn y sector gofal cymdeithasol i oedolion yng Nghymru - 2016

| Math o wasanaeth | Nifer y safleoedd lle darperir gwasanaethau |
|---|---|
| Gofal preswyl | 530 |
| Gofal nyrsio | 820 |
| Gofal cartref | 520 |
| Gofal dydd | 60 |
| Gwasanaethau eraill | 130 |
| Cyflogwyr uniongyrchol | 1,700 |
| **Cyfanswm – ac eithrio cyflogwyr uniongyrchol** | **2,070** |
| **Cyfanswm – yn cynnwys cyflogwyr uniongyrchol** | **3,760** |

*Ffynhonnell: Tabl 2.1 i Dabl 2.6; Pob rhif wedi'i dalgrynnu i'r 100 agosaf.*

Tabl 2.8 Cyfanswm y swyddi yn y sector gofal cymdeithasol i oedolion yng Nghymru - 2016

| Math o wasanaeth | Swyddi | FTE |
|---|---|---|
| Gofal preswyl | 24,700 | 18,100 |
| Gofal nyrsio | 7,300 | 5,500 |
| Gofal cartref | 23,500 | 16,800 |
| Gofal dydd | 9,100 | 6,800 |
| Gwasanaethau eraill | 15,300 | 12,000 |
| Cyflogwyr uniongyrchol | 3,600 | 1,600 |
| **Cyfanswm – ac eithrio cyflogwyr uniongyrchol** | **79,800** | **60,000** |
| **Cyfanswm – yn cynnwys cyflogwyr uniongyrchol** | **83,400** | **61,600** |

*Ffynhonnell: Tabl 2.1 i Dabl 2.6; Pob rhif wedi'i dalgrynnu i'r 100 agosaf.*

### Tystiolaeth 1 Cyflogaeth yn ôl cenedligrwydd

Mae'r sector gofal cymdeithasol i oedolion, fel llawer o rai eraill yn y DU, yn cyflogi gweithwyr o wledydd eraill. Aeth SSSC ati i ddadansoddi’r gweithlu gofal cymdeithasol yn ôl cenedligrwydd, gan ddefnyddio data o'r APS, ar gyfer holl wledydd y DU. Nid oedd yn bosib dadgyfuno gwasanaethau oedolion a phlant ar gyfer y dadansoddiad hwn, felly adroddwyd canrannau.

Yng Nghymru, ers 2011, mae'r ganran o weithwyr o'r DU yn y sector gofal cymdeithasol wedi parhau'n gymharol sefydlog (rhwng 94.5% a 96.3%). Fodd bynnag, mae cyfansoddiad y gweithlu nad yw o’r DU (neu fewnfudwyr) wedi newid yn ystod y cyfnod hwn. Er ei fod yn cynrychioli cyfran fach o'r gweithlu cyfan, mae canran y gweithwyr nad ydynt o’r UE wedi gostwng (3.9% yn 2011, i 1.4% yn 2015, gyda chynnydd i 2.2% yn 2016). Ar yr un pryd, mae canran y gweithlu sy'n weithwyr o’r UE wedi cynyddu o 1.6% i 2.4%.

Nid yw effaith Brexit ar weithwyr yr UE yn y sector gofal cymdeithasol i oedolion yn hysbys. Os yw Brexit yn lleihau cyflenwad gweithwyr gofal cymdeithasol i oedolion o wledydd eraill yr UE, bydd yn rhaid i gyflogwyr recriwtio o ffynonellau eraill. Gallai hyn arwain at gynnydd yng nghyfran y gweithlu a aned yn y DU, neu at wrthdroi'r duedd o gyfran lai a llai o weithwyr yn cael eu recriwtio o wledydd nad ydynt yn rhan o'r UE.

# 3. Y dull incwm

Y dull cyntaf a ddefnyddir i gynhyrchu amcangyfrifon o GVA yn y sector yw'r dull incwm. Mae cyfanswm yr incwm a dderbynnir gan gynrychiolwyr y sector ar ffurf cyflogau, a incwm arall yn darparu amcangyfrif o'r gwerth a ychwanegir gan y sector[3]. Amcangyfrifir y mathau hyn o incwm gan ddefnyddio enillion (cyflogau) a'r Gwarged Gweithredu Gros a gynhyrchir yn y sector (am incwm arall). Yn achos y sector gofal cymdeithasol i oedolion, bydd mwyafrif helaeth yr incwm yn y sector yn cael ei ennill mewn cyflogau a delir i weithwyr gofal cymdeithasol.

## 3.1 Enillion – y sector a reoleiddir a'r sector cyhoeddus

Y brif ffynhonnell wybodaeth ar gyfer enillion yng Nghymru yw'r Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion (ASHE). Fodd bynnag, mae'r data o'r ASHE yn goramcangyfrif yr enillion gwirioneddol yn y sector gofal cymdeithasol i oedolion oherwydd y modd y caiff y data ei gasglu. Felly, defnyddiwyd data a gasglwyd gan SfC yn Lloegr (NMDS-SC) ochr yn ochr â data'r ASHE i amcangyfrif yr enillion yn y sector gofal cymdeithasol i oedolion yng Nghymru.

Mae gwybodaeth enillion a ddarperir gan SfC wedi'i haddasu gan ddefnyddio gwybodaeth o'r ASHE. Mae'r enillion cyfartalog yn y sector gofal cymdeithasol i oedolion yn yr ASHE yng Nghymru wedi'u rhannu ar sail enillion cyfartalog y sector yn yr ASHE yn Lloegr, i gael cymhareb o enillion yn y sector rhwng y ddwy wlad. Yna cymharwyd y gymhareb hon â gwerth yr enillion yn Lloegr o'r NMDS-SC. Mantais ychwanegol o ddefnyddio data gan SfC yw ei fod yn caniatáu i enillion gael eu dadgyfuno yn ôl y math o ddarparwr a'r math o wasanaeth a ddarperir.

Dangosir yr enillion cyfartalog ar gyfer FTE yn y sector gofal cymdeithasol i oedolion yng Nghymru yn Nhabl 3.1. Mae'n dangos y canlynol:

- Yr enillion cyfartalog yn y sector yw £16,900 fesul FTE.
- Amcangyfrifir bod yr enillion cyfartalog fesul FTE yn y sector cyhoeddus yn uwch nag yn y sectorau preifat a gwirfoddol, ar gyfer pob math o wasanaeth (mwy na 12% yn uwch ar gyfer pob math o wasanaeth).
- Amcangyfrifir mai cyfanswm gwerth enillion yn y sector gofal cymdeithasol i oedolion yng Nghymru yw £913 miliwn.
- Er bod enillion fesul FTE yn uwch yn y sector cyhoeddus, mae'r gyfran uchaf o'r cyfanswm enillion yn y sector preifat (£529 miliwn, 58%), gan mai dyma lle mae'r rhan fwyaf o'r gweithlu'n cael eu cyflogi.

Mae enillion yn y sector gofal cymdeithasol i oedolion yng Nghymru yn is nag enillion cyfartalog yng Nghymru. Amcangyfrifir mai'r enillion cyfartalog fesul FTE yn y sector gofal cymdeithasol i oedolion a reoleiddir yng Nghymru yw £16,900. Mae enillion cyfartalog ar gyfer FTE yng Nghymru yn £29,200 (enillion cyfartalog ar gyfer gweithiwr llawn amser) yn 2016. Felly, mae'r enillion yn y sector gofal cymdeithasol i oedolion yn cynrychioli 58% o enillion cyfartalog.

[3] Nid yw amcangyfrifon ASHE yn cynnwys gweithwyr hunangyflogedig, neu swyddi mewn busnesau nad oes gofyn iddynt fod wedi'u cofrestru gyda PAYE (y cwmnïau bach mwyaf tebygol â lefelau cyflog isel). Felly mae'r amcangyfrifon ASHE yn eithrio llawer o swyddi sy'n talu'n isel, a all arwain at or-ragamcanu enillion.

Tabl 3.1 Enillion cyfartalog a chyfanswm enillion amcangyfrifedig yn y sector gofal cymdeithasol i oedolion a reoleiddir, 2016

| Math o ddarparwr | Math o wasanaeth | FTE | Enillion fesul FTE | Cyfanswm (£'000) |
|---|---|---|---|---|
| Cyhoeddus | Gofal preswyl | 2,500 | 19,400 | 48,786 |
| | Gofal nyrsio | 0 | 18,800 | 0 |
| | Gofal cartref | 3,000 | 18,100 | 53,509 |
| | Gofal dydd | 1,900 | 18,300 | 35,278 |
| | Gwasanaethau eraill | 4,100 | 26,300 | 107,446 |
| | **Cyfanswm** | **11,500** | **-** | **245,020** |
| Preifat | Gofal preswyl | 13,100 | 15,800 | 156,872 |
| | Gofal nyrsio | 5,800 | 16,800 | 73,318 |
| | Gofal cartref | 14,300 | 14,400 | 157,002 |
| | Gofal dydd | 4,400 | 16,100 | 54,142 |
| | Gwasanaethau eraill | 6,800 | 16,900 | 87,847 |
| | **Cyfanswm** | **44,500** | **-** | **529,181** |
| Gwirfoddol | Gofal preswyl | 3,400 | 15,800 | 41,218 |
| | Gofal nyrsio | 1,500 | 16,800 | 19,264 |
| | Gofal cartref | 3,800 | 14,400 | 41,252 |
| | Gofal dydd | 1,200 | 16,100 | 14,226 |
| | Gwasanaethau eraill | 1,800 | 16,900 | 23,082 |
| | **Cyfanswm** | **11,700** | **-** | **139,042** |
| Cyfanswm | Gofal preswyl | 14,900 | - | 246,876 |
| | Gofal nyrsio | 5,500 | - | 92,583 |
| | Gofal cartref | 16,400 | - | 251,764 |
| | Gofal dydd | 6,100 | - | 103,646 |
| | Gwasanaethau eraill | 10,600 | - | 218,375 |
| | **Cyfanswm** | **53,500** | **£16,900** | **913,244** |

*Ffynhonnell: Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion; Arolwg o'r Llafurlu: Skills for Care National Minimum dataset – social care; Derbyniwyd y tybiaethau fel rhai rhesymol gan Gofal Cymdeithasol Cymru; FTE ac enillion wedi'u talgrynnu i'r 100 agosaf.*

## 3.2. Enillion – sector heb ei reoleiddio

Mae Tabl 3.2 yn dangos yr enillion yn y sector gofal cymdeithasol heb ei reoleiddio i oedolion yng Nghymru. Unwaith eto, mae nifer amcangyfrifedig yr FTE wedi'i luosi gydag enillion cyfartalog ar gyfer FTE. Amcangyfrifir mai gwerth yr enillion yn y sector gofal cymdeithasol heb ei reoleiddio i oedolion yng Nghymru yw £93 miliwn.

Tabl 3.2 Enillion cyfartalog a chyfanswm enillion amcangyfrifedig yn y sector gofal cymdeithasol heb ei reoleiddio i oedolion, 2016

| Math o ddarparwr | Math o wasanaeth | FTE | Enillion fesul FTE | Cyfanswm (£'000) |
|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm | Gofal preswyl | 3,300 | 15,800 | 51,534 |
| | Gofal nyrsio | - | - | - |
| | Gofal cartref | 500 | 14,400 | 6,569 |
| | Gofal dydd | 700 | 16,100 | 10,997 |
| | Gwasanaethau eraill | 1,400 | 16,900 | 24,386 |
| | **Cyfanswm** | **5,700** | **16,200** | **93,448** |

*Ffynhonnell: Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion; Arolwg o'r Llafurlu: Skills for Care National Minimum dataset – social care; Derbyniwyd y tybiaethau fel rhai rhesymol gan Gofal Cymdeithasol Cymru; FTE ac enillion wedi'u talgrynnu i'r 100 agosaf.*

## 3.3. Gwarged Gweithredu Gros

Yn ogystal ag enillion / cyflogau, caiff incwm economaidd ychwanegol ei gynhyrchu gan y sector gofal cymdeithasol I oedolion. Amcangyfrifir hyn gan y Gwarged Gweithredu Gros (GOS). Diffinnir GOS fel incwm minws costau gweithredu. Wrth amcangyfrif GOS, tybir mai dim ond darparwyr gofal y sector preifat sy'n cael eu rhedeg "er elw', ac felly yn cynhyrchu GOS (gellir gweld mwy am gyfrifol GOS ei weld yn Annex 1 A1.1 a A1.3.2).

Mae amcangyfrif o GOS yn y sector gofal cymdeithasol I oedolion yn cynnwys y costau canlynol:

- Costau staff;
- Deunyddiau eu hangen ar gyfergweithgareddau dydd I ddydd;
- Costa teithio;
- Costau dydd I ddydd eraill wrth ddarparu gwasanaethau gofal cymdeithasol I oedolion;

Costau wedi eu heithrio o amcangyfrif GOS yn cynnwys:

- Rhent;
- Pryniant eithriadol (fel adnewyddu eiddo neu adnewyddu cyfalaf);
- Dibrisiad a amorteiddiad o eiddo cyfalaf (lleihad yng ngwerth ased fel y caiff ei ddefnyddio a heneiddio, e.e. cerbydau neu systemau cyfrifiadurol);
- Llog ar arian wedi ei fenthyg; a
- Treth.


**Mae'n bwysig nodi nad yw'r GOS yn cyfateb i'r elw a gymerir gan berchnogion a chyfranddeiliaid.** Dim ond is-set o gyfanswm y costau a gynhwysir yn y cyfrifiad GOS. Ni thynnir costau hirdymor megis y defnydd o gyfalaf sefydlog (dibrisiant ac amorteiddio), pryniannau eithriadol, talu llog a threthi a rhenti. Mae'n gyfwerth ag

enillion cyn llog, trethi, dibrisiant, amorteiddio ac ailstrwythuro neu gostau rhent (EBITDAR).[4]

**Gall GOS positif arwain at elw economaidd bach neu negyddol hyd yn oed. Mae hyn oherwydd fod y costau a gaiff eu di-ystyried rhag cyfrifo GOS yn gallu bod yn hafal I neu yn uwch na gwerth GOS.**

Mae ffigwr 3.1 (o'r Awdurdod Marchnata a Chystadleuaeth (CMA), 2017) yn dangods hyn. Er gwaethaf GOS cyfartalog o rhwng 14% a 16%, amcangyfrifir bod lefel yr elw economaidd (lle mae'r holl gostau wedi'u cynnwys) yn y sector gofal cymdeithasol i oedolion yn agos at sero.

Figure 3.1 Proffil gwarged gweithredol y diwydiant gofal preswyl, 2010-2016




*Ffynhonnell: CMA (2017) Care Homes Market Study – ffigur 4.3*

Mae dau brif astudiaeth wedi rhoid syniad i fewn i werth GOS y sector gofal cymdeithasol i oedolion. Mae LaingBuisson (2017) yn darparu gwybodaeth fanwl am gyfrifon y chwe darparwr gofal preswyl mawr. Mae hyn yn dangos cyfartaledd GOS (neu enillion EBITDAR) o bron i 20%; ond mae hyn yn arwain at golled sylweddol cyn treth.

Mae'r CMA (2017) yn darparu asesiad manylach o GOS yn y sector gofal preswyl. Archwiliodd hyn gyfrifon blynyddol pob gweithredwr gofal preswyl yn y DU y mae gofyn iddynt anfon eu cyfrifon at Dŷ'r Cwmnïau (CH). Canfu hyn yn 2015/16 (y

[4] Defnyddiwyd y gwerth EBITDAR yn y dadansoddiad gan mai dyma'r mesur a ffefrir yn adroddiad LaingBuisson a dadansoddiad CMA o'r farchnad. Mae mesur EBITDA, lle tybir bod rhenti a chostau ailstrwythuro'n gostau gweithredu yn y dadansoddiad sensitifrwydd yn **Error! Reference source not found.**

flwyddyn ddiweddaraf yr oedd gwybodaeth gynhwysfawr ar gael ar ei chyfer), bod y GOS yn y sector oddeutu 16%, dim ond ychydig yn is nag yn adroddiad LaingBuisson.

Ar gyfer yr astudiaeth hon, ni chynhaliwyd archwiliad manwl o enillion ariannol yr holl ddarparwyr gofal cymdeithasol i oedolion. I amcangyfrif y GOS mewn gofal preswyl, defnyddiwyd gwerth GOS (EDITBAR) cyfartalog o'r astudiaeth CMA fel ymyl tybiedig GOS. Mae hyn oherwydd bod yr amcangyfrif CMA yn cynnwys holl ddarparwyr gofal cymdeithasol oedolion yn y DU sy'n ffeilio adroddiadau i CH, ac y tybir ei bod yn fesur rhesymol o GOS ym mhob cenedl o'r DU.

I amcangyfrif gwerth GOS, lluoswyd yr ymyl tybiedig GOS (16%) gan gyfanswm allbwn y sector preswyl preifat. Rhoddodd hyn amcangyfrif o bron i £87 miliwn o GOS yn y sector gofal cymdeithasol oedolion preswyl yng Nghymru.

Amcangyfrifir y GOS ar gyfer darparwyr gofal cartref gan ddefnyddio gwybodaeth a gafwyd gan Gymdeithas Gofal Cartref y DU (UKHCA, 2017). Amcangyfrifodd yr ymchwil hwn mai 11.3% oedd ymyl GOS yn y farchnad gofal cartref a 8.3% ar gyfer darparwyr gwirfoddol[5]. Mae hyn yn werth amcangyfrifedig is o GOS nag ar gyfer gwasanaethau gofal preswyl. Gallai hyn fod oherwydd bod costau rhent is a defnydd llai o gyfarpar cyfalaf (sy'n golygu bod llai o ddibrisiant a phryniant eithriadol).

Mae'r GOS amcangyfrifedig yn y sector gofal cartref yn cael ei gyfrifo trwy luosi'r gwerth hwn gan allbwn y sector gofal cartref. Amcangyfrifwyd bod hyn bron i £12 miliwn yng Nghymru yn 2016.

Nid oes unrhyw wybodaeth ar gael ar gyfer gwerth GOS ar gyfer gofal dydd a gwasanaethau eraill. Felly, ni wnaed unrhyw ymgais i amcangyfrif y GOS yn y gwasanaethau hyn. Yn olaf, tybiwyd nad oes unrhyw GOS wrth gyflogi PAs - tybir eu bod yn cael eu cyflogi'n uniongyrchol ac nad oes unrhyw incwm ychwanegol uwchlaw eu cyflog.

## 3.4. Cyflogwyr uniongyrchol

Mae ymchwil gan SfC (2017) wedi cynhyrchu amcangyfrif ar gyflog gyfartaledd Pas yn Lloegr (£17,500 am FTE). Tybiwyd cyflog PA a gyflogir yng Nghymru drwy ddefnyddio y dull a amlinellir yn adran 3.1. Amcangyfrifir mai £15,600 yw hyn. Amcangyfrifir bod yna 1,600 o PAs llawn amser yng Nghymru. Mae hyn yn golygu yr amcangyfrifir bod eu cyfanswm enillion yng Nghymru yn £26 miliwn (gweler Tabl 3.3). Mae mwy o fanylion am y fethodoleg hon i'w gweld yn Annex 1.

Tabl 3.3 Enillion Cynorthwywyr Personol

| Math o wasanaeth | Enillion fesul FTE | FTE | Cyfanswm (£'000) |
|---|---|---|---|
| Cynorthwywyr Personol | £15,600 | 1,600 | 25,549 |

*Ffynhonnell: Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion; Arolwg o'r Llafurlu: Skills for Care National Minimum dataset – social care; Derbyniwyd y tybiaethau fel rhai rhesymol gan Gofal Cymdeithasol Cymru; FTE ac enillion wedi'u talgrynnu i'r 100 agosaf.*

[5] UKHCA (2018) Pris Isaf ar gyfer Gofal Cartref. Dangosyddion a waharddwyd yn y GOS amcangyfrifedig oedd: Elw net / gwarged; Adeiladau, cyfleusterau a gwasanaethau; a Gorbenion busnes eraill. Y dangosyddion a gynhwyswyd yn yr amcangyfrif GOS oedd: costau gweithwyr gofal; staffio, recriwtio a hyfforddi; nwyddau traul a chostau proffesiynol. Ar gyfer darparwyr gwirfoddol, tybir bod yr elw net / gwarged yn sero. Roedd y dangosyddion hyn wedi'u heithrio gan y tybir y byddai'r costau yn cael eu cynnwys yn y mesur EBITDAR.

## 3.5. GVA amcangyfrifedig

Cyfrifir y lefel amcangyfrifedig o GVA drwy gyfrifo gwerth cyfanswm enillion a GOS a gynhyrchir yn y dull incwm. Yng Nghymru, yn 2016, amcangyfrifir bod GVA gofal cymdeithasol i oedolion yn £1.2 biliwn gan ddefnyddio'r dull hwn. Amcangyfrifir bod y gyfran fwyaf o GVA yn y sectorau gofal preswyl (29% o gyfanswm gwerth y sector), er bod gan y sectorau gofal cartref a gwasanaethau eraill hefyd gyfran fawr o'r cyfanswm GVA (gweler Tabl 3.4).

Tabl 3.4 Amcangyfrifon enillion o ofal cymdeithasol i oedolion a GVA cysylltiedig

| | Enillion (£'000) | GOS (£'000) | Amcangyfrifon GVA (£'000) |
|---|---|---|---|
| Gofal preswyl | 298,412 | 29,600 | 328,012 |
| Gofal nyrsio | 92,583 | 57,734 | 150,317 |
| Gofal cartref | 258,333 | 33,933 | 292,266 |
| Gofal dydd | 114,643 | 0 | 114,643 |
| Gwasanaethau eraill | 242,761 | 0 | 242,761 |
| Cynorthwywyr Personol | 25,549 | 0 | 25,549 |
| **Cyfanswm** | **1,032,281** | **98,839** | **1,131,120** |

*Ffynhonnell: Cofrestr Busnes Rhyngadrannol; AGC, (2016) Adroddiad BlynyddolPrif Arolygydd, 2015-16: Nifer y gwasanaethau cofrestredig; Skills for Care Size and Structure of the Adult Social Care sector in England; Data Cymru: Adroddiad casglu data'r gweithlu SCWDP Staff adrannau gwasanaethau cymdeithasol awdurdod lleol yn ôl awdurdod lleol a theitl y swydd; Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion; Arolwg o'r Llafurlu: Skills for Care National Minimum dataset – social care; LaingBuisson (2017) Care of Older People; CMA (2017); Derbyniwyd y tybiaethau fel rhai rhesymol gan Gofal Cymdeithasol Cymru*

### Tystiolaeth 2 Twf a ragwelir yn y galw am wasanaethau yng Nghymru

Amcangyfrifir y bydd poblogaeth Cymru yn cynyddu gan fwy na 150,000 o bobl erbyn 2039, i boblogaeth gyfan o 3.3 miliwn (twf o 5% yn y boblogaeth). Fodd bynnag, rhagwelir y bydd y boblogaeth unigolion 65 oed neu hŷn yn cynyddu 250,000 (o 636,000 yn 2016). Mae hyn yn cynrychioli twf o 40% yn nifer y bobl 65 oed neu hŷn yng Nghymru (a gostyngiad yn nifer y bobl dan 65 oed).

Disgwylir i hyn ysgogi cynnydd yn y galw am ofal cymdeithasol i oedolion yn y blynyddoedd i ddod yng Nghymru. Cynhyrchodd Comisiwn y DU dros Gyflogaeth a Sgiliau (UKCES) amcangyfrifon o'r galw am swyddi yn y dyfodol mewn gwahanol grwpiau galwedigaethol. Roedd yr ymchwil yn rhagweld y galw yn y dyfodol tan 2024. Ni chafodd y sector gofal cymdeithasol i oedolion ei fodelu fel sector penodol, a'r categori mwyaf priodol ar gyfer y sector fyddai'r grŵp galwedigaethol "Gofal, Hamdden a gweithgareddau gwasanaeth eraill". Yng Nghymru, amcangyfrifir y byddai cyflogaeth yn y grŵp hwn yn cynyddu ar gyfartaledd o 0.9% bob blwyddyn rhwng 2014 a 2024. Mae hyn yn rhoi tystiolaeth bellach bod y galw am ofal cymdeithasol i oedolion yn debygol o gynyddu yn y dyfodol yng Nghymru.

# 4 Y dull gwariant

Yr ail ddull i amcangyfrif gwerth economaidd y sector gofal cymdeithasol i oedolion yw'r dull gwariant. Mae'r dull hwn yn cynnwys amcangyfrif cyfanswm y gwariant ar ofal cymdeithasol i oedolion yng Nghymru (cyllid cyhoeddus a phreifat). Yna caiff hyn ei drosi'n GVA (allbwn tn llai pryniant o ddeunyddiau neu gwasanaethau) ar sail cymarebau trosiant (a gynrychiolir gan wariant) i GVA a ddarperir yn yr Arolwg Busnes Blynyddol (ABS).

Mae gwariant yn llifo o arianwyr i ddarparwyr gwasanaethau gofal cymdeithasol i oedolion. Fodd bynnag, mae yna wahanol ffynonellau ariannu ar gyfer gwasanaethau gofal cymdeithasol i oedolion, sef:

- Ariannu sector cyhoeddus – unigolion sy'n defnyddio gwasanaethau gofal sy'n cael eu hariannu'n gyfan gwbl gan y wladwriaeth. Mae hyn yn cynnwys gwariant a wneir yn uniongyrchol rhwng y sector cyhoeddus a darparwr gwasanaethau gofal cymdeithasol i oedolion i ddarparu gwasanaethau i unigolion, a chyllid a roddir yn uniongyrchol i ddefnyddwyr gwasanaethau i brynu eu gofal eu hunain (taliadau uniongyrchol);
- Hunan-arianwyr – unigolion sy'n defnyddio gwasanaethau gofal ac yn talu'r costau llawn eu hunain;
- Cyd-ariannu - unigolion sy'n derbyn rhywfaint o arian sector cyhoeddus ar gyfer gwasanaethau gofal, ond sydd angen 'ychwanegu at' y cyllid cyhoeddus i dalu'r taliadau gofal llawn.

## 4.1. Ariannu sector cyhoeddus a chyd-ariannu

Mae Llywodraeth Cymru'n casglu data ar ariannu gofal cymdeithasol i oedolion yn y sector cyhoeddus. Mae'n casglu data ar "incwm" y sector cyhoeddus ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol i oedolion hefyd. Diffinnir hyn fel taliadau o drefniadau gyda sefydliadau eraill a chyfraniadau cleientiaid at wasanaethau. Dangosir y wybodaeth hon yn Nhabl 4.1, ac mae'n dangos y canlynol:

- Roedd cyfanswm gwerth gwariant y sector cyhoeddus dros £1.1 biliwn yn 2015/16, gyda £286 miliwn pellach yn dod o gyfraniadau cleientiaid a threfniadau cyd-ariannu. Mae hyn yn rhoi amcangyfrif o bron i £1.4 biliwn o wariant gros ar ofal cymdeithasol i oedolion yng Nghymru.
- Mae'r rhan fwyaf o wariant y sector cyhoeddus a gwariant cyd-ariannu ar bobl hŷn (53% o'r gwariant gros).
- Roedd gofal i bobl hŷn yn fwy tebygol o gael ei ariannu'n rhannol gan drefniadau ar y cyd neu gyd-ariannu na mathau eraill o ofal; roedd 66% o'r holl arian gofal cymdeithasol i oedolion ar gyfer gofalu am bobl hŷn.

Tabl 4.1 Ariannu cyhoeddus a chyd-ariannu gofal cymdeithasol i oedolion, 2015-16

| Math o wasanaeth | Ariannu sector cyhoeddus (£'000) | Cyd-ariannu (£'000) | Cyfanswm (£'000) |
|---|---|---|---|
| Pobl hŷn (65+) | 546,823 | 188,243 | 735,066 |
| Anabledd corfforol (18+) | 97,327 | 24,022 | 121,349 |
| Anabledd dysgu (18+) | 343,088 | 55,465 | 398,553 |
| Anghenion iechyd meddwl (18+) | 78,004 | 15,290 | 93,293 |
| Arall | 36,866 | 3,291 | 40,157 |
| **Cyfanswm** | **1,102,108** | **286,311** | **1,388,418** |

*Ffynhonnell: Gwariant refeniw gwasanaethau cymdeithasol yn ôl grŵp cleientiaid (£ mil); Incwm o werthiannau, ffioedd a thaliadau – StatsCymru. Efallai na fydd y cyfanswm yn gyfartal â swm oherwydd talgrynnu.*

## 4.2. Hunan-ariannu

Mae maint a graddfa'r gwariant ar ofal cymdeithasol i oedolion drwy hunan-ariannu'n anodd ei amcangyfrif. Mae hyn oherwydd nad oes ffynhonnell ddata berthnasol sy'n amcangyfrif naill ai lefel y gwariant neu'r nifer o unigolion sy'n ariannu eu gofal eu hunain.

Mae nifer o astudiaethau diweddar sydd wedi archwilio hunan-ariannu gwasanaethau gofal cymdeithasol i oedolion preswyl. Mae LaingBuisson (2017) yn amcangyfrif cyfran y preswylwyr preswyl a gofal nyrsio sy'n hunan-ariannu yng Nghymru (32%). Mae astudiaethau blaenorol wedi amcangyfrif bod dros 40% o leoedd cartrefi gofal yn Lloegr ar gyfer Hunan-arianwyr (IPC 2011, 2015). Mae'r amcangyfrifon hyn yn debyg i'r rhai a gyflwynwyd yn adroddiad LaingBuisson, felly mae'n ymddangos bod yr amcangyfrif o 32% i Gymru yn gyson ag astudiaethau eraill.

Mae llai o dystiolaeth am nifer yr Hunan-arianwyr ar gyfer gofal cymdeithasol dibreswyl i oedolion. Cynhaliwyd adolygiad o'r dystiolaeth bresennol i sefydlu maint y farchnad hunan-ariannu ar gyfer gofal cymdeithasol dibreswyl yn y DU. Dangosir crynodeb o ganfyddiadau'r astudiaethau hyn yn 0. Ar sail hyn, amcangyfrifwyd bod cyfran y bobl hŷn sy'n talu am eu gofal cartref, gofal dydd a mathau eraill o ofal yng Nghymru yn 21%.

Mae'n annhebygol y bydd unigolion sy'n hunan-ariannu eu gofal eu hunain yn talu'r un pris am eu gofal â'r rhai sy'n cael eu hariannu gan y wladwriaeth. Mae sawl ffynhonnell yn awgrymu bod Hunan-arianwyr yn debygol o dalu ffi uwch am yr un gwasanaethau gofal. Gallai'r rhesymau dros y gwahaniaethau hyn fod oherwydd pwysau'r farchnad (awdurdodau lleol a'r GIG yn prynu gwasanaethau trwy dendro'n bennaf, ac felly'n cael cyfraddau ffafriol), neu oherwydd bod darparwyr yn gorfod rhoi croes-gymhorthdal i gleientiaid y sector cyhoeddus trwy godi premiwm ar hunan-arianwyr.

Mae LaingBuisson (2017) yn cynnwys dadansoddiad o brisiau a godir ar hunan-arianwyr, a gwelwyd bod y pris ar gyfer hunan-ariannwr yn 46% (41% ar gyfer gofal nyrsio) yn uwch ar gyfartaledd na'r pris ar gyfer cleient a ariennir yn gyhoeddus. Yn ddiweddar, mae'r CMA (2017) wedi amcangyfrif hefyd y cynyddir 40% ar y pris ar gyfer hunan-arianwyr mewn gofal preswyl. Mae'r prisiau uwch hyn yn uwch na'r amcangyfrifon blaenorol (a oedd yn agosach at 20%, LaingBuisson a Sefydliad Joseph Rowntree, 2008; BUPA, 201; Prifysgol East Anglia, 2011). Mae'r CMA

(2017) yn awgrymu y gallai hyn fod oherwydd bod yr elw y gall y darparwyr ei wneud drwy drigolion a ariennir yn gyhoeddus wedi disgyn yn y blynyddoedd diwethaf, felly mae angen y prisiau uwch ar gyfer hunan-arianwyr er mwyn sicrhau bod y busnes yn gynaliadwy. Defnyddiwyd y pris ychwanegol o 46% yn y dadansoddiad hwn, ac mae'r swm wedi ei gymhwyso i'r costau uned amcangyfrifedig ar gyfer unigolion a ariennir. Dangosir y costau uned hyn yn Nhabl 4.2.

Dangosir dadansoddiad o hunan-ariannu yn Nhabl 4.2, yn ôl y math o ddarpariaeth gofal. Mae hyn yn awgrymu bod cyfanswm gwerth gwariant gofal cymdeithasol i oedolion wedi'i hunan-ariannu'n fwy na £400 miliwn. Y gyfran fwyaf o wariant hunan-ariannu yw gwariant ar gyfer gofal preswyl a nyrsio (54% o'r cyfanswm hunan-ariannu). Mae cyfanswm gwerth amcangyfrifedig y gwariant ar ofal cymdeithasol oedolion yng Nghymru dros £1.8 biliwn.

Tabl 4.2 Amcangyfrif o'r gwariant yn y sector gofal cymdeithasol i oedolion, 2015-16

| | Ariannu cyhoeddus a chyd-ariannu (£'000) | Cost uned ar gyfer hunan-arianwyr (£ y flwyddyn) | Nifer yr hunan-arianwyr | Gwariant hunan-ariannu (£'000) | Cyfanswm gwariant (£'000) |
|---|---|---|---|---|---|
| Gofal preswyl | 569,358 | 36,900 | 2,200 | 82,763 | 652,122 |
| Gofal nyrsio | 116,551 | 42,300 | 3,500 | 147,809 | 264,360 |
| Gofal cartref | 274,115 | 15,000 | 6,400 | 95,728 | 369,843 |
| Gofal dydd | 119,427 | 10,100 | 2,200 | 22,199 | 141,626 |
| Gwasanaethau eraill | 247,030 | - | - | 53,618 | 300,648 |
| Taliadau uniongyrchol | 61,936 | - | 0 | - | 61,936 |
| **Cyfanswm** | **1,388,418** | | | **402,117** | **1,790,535** |

*Ffynhonnell: Gwariant refeniw gwasanaethau cymdeithasol yn ôl grŵp cleientiaid (£ mil); Incwm o werthiannau, ffioedd a thaliadau - StatsCymru; LaingBuisson (2017) Care of Older People; PSSRU Unit Cost of Health and Social Care; Mae'r gwerthoedd ar gyfer cost uned a nifer yr hunan-arianwyr wedi'u talgrynnu i'r 100 agosaf. Efallai na fydd y cyfanswm yn gyfartal â swm oherwydd talgrynnu.*

## 4.3. GVA amcangyfrifedig

Troswyd y gwariant hyn a gyfrifir uchod yn GVA gan ddefnyddio cymarebau trosiant i GVA ar gyfer y sector gofal cymdeithasol i oedolion o'r ABS. Mae cymarebau trosiant i GVA yn dangos lefel y GVA a ddisgwylir mewn sector penodol, o lefel benodol o wariant. Mae cymhwyso'r cymarebau hyn i'r gwariant amcangyfrifedig yn rhoi amcangyfrif o GVA o £1.2 biliwn ar gyfer y sector yn 2015/16 yng Nghymru (gweler Tabl 4.3). Mae'r gyfran fwyaf o GVA yn dod o'r is-sectorau preswyl a gofal nyrsio (£713 miliwn; 59% o'r cyfanswm GVA).

### Tabl 4.3 Amcangyfrifon gwariant ar ofal cymdeithasol i oedolion a GVA cysylltiedig, 2015-16

| | Cyfanswm gwariant (£'000) | Cymhareb trosiant i GVA | GVA (£'000) |
|---|---|---|---|
| Gofal preswyl | 652,122 | 77% | 502,078 |
| Gofal nyrsio | 264,360 | 80% | 210,656 |
| Gofal cartref | 369,843 | 49% | 179,771 |
| Gofal dydd | 141,626 | 49% | 68,841 |
| Gwasanaethau eraill | 300,648 | 67% | 200,342 |
| Taliadau uniongyrchol | 61,936 | 67% | 41,272 |
| **Cyfanswm** | **1,790,535** | | **1,202,960** |

*Ffynhonnell: Gwariant refeniw gwasanaethau cymdeithasol yn ôl grŵp cleientiaid (£ mil); Incwm o werthiannau, ffioedd a thaliadau; LaingBuisson (2017) Care of Older People; PSSRU Unit Cost of Health and Social Care; Arolwg Busnes Blynyddol. Efallai na fydd y cyfanswm yn gyfartal â swm oherwydd talgrynnu.*

### Tystiolaeth 3 Effaith gwariant cyhoeddus ar wasanaeth gofal i oedolion

Mae yna wahanol fathau o nwyddau a gwasanaethau mewn economi, ac mae angen trin y marchnadoedd ar gyfer gwahanol fathau o nwyddau a gwasanaethau yn wahanol i sicrhau bod y farchnad yn gweithredu'n effeithlon. Enghreifftiau o wahanol fathau o nwyddau yw:

Nwyddau preifat - deunydd neu wasanaeth y gellir ei brynu, a phryd y prynir y deunydd mae'n atal unigolion eraill rhag ei brynu. Dyma'r math mwyaf cyffredin o dda.

Nwyddau cyhoeddus - deunydd neu wasanaeth, pan fo un unigolyn yn elwa o'i ddefnyddio, nid yw'n atal unrhyw un arall i elwa ar y deunydd, a phryd y caiff ei ddefnyddio nid yw'n lleihau'r swm sydd ar gael i eraill.

Nwyddau cwasi-gyhoeddus - deunydd neu wasanaeth sy'n disgyn rhwng cyhoeddus a phreifat, sy'n meddu ar rai o nodweddion deunydd cyhoeddus.

Teilyngdod da - deunydd sy'n darparu manteision ehangach i'r economi wrth ei ddefnyddio.

Nwyddau preifat â methiannau'r farchnad - nwyddau neu wasanaethau sy'n nwyddau preifat ond lle nad yw'r farchnad yn gweithredu'n gywir, er enghraifft oherwydd diffyg gwybodaeth.

Pe bai gofal cymdeithasol i oedolion yn cael ei drin fel 'lles preifat' (rhaid i bob unigolyn hunan-ariannu eu gofal cymdeithasol i oedolion eu hunain) byddai methiant y farchnad. Mae hyn oherwydd nad oes gan rai unigolion yr adnoddau i brynu'r gofal cymdeithasol i oedolion y mae arnynt ei angen. Nid oes gan unigolion eraill wybodaeth gyflawn am eu hangen am ofal cymdeithasol na chost y gofal cymdeithasol i oedolion y maent ei angen arnynt (er enghraifft, y cyflyrau iechyd y gallent eu datblygu a'u disgwyliad oes), ac felly'n tanbrisio faint o ofal cymdeithasol sydd ei angen arnynt.

Mae yna allanolrwydd cadarnhaol hefyd (megis atal gofal iechyd, gan ganiatáu i aelodau'r teulu a gofalwyr anffurfiol barhau i weithio). Mae hyn yn golygu bod unigolion yn tanbrisio gwerth gofal cymdeithasol oedolion y byddai angen iddynt eu prynu.

Felly, ni fyddai marchnad breifat ar gyfer gofal cymdeithasol i oedolion yn gweithredu'n effeithlon a byddai'n cael ei ystyried fel methiant yn y farchnad. Dylid ystyried gofal cymdeithasol i oedolion fel rhywbeth lled-gyhoeddus (gan y gall pob unigolyn mewn cymdeithas elwa ohoni) neu rinwedd da (gan greu manteision pellach). Yn hytrach nag ymestyn buddsoddiad preifat, mae'r arian cyhoeddus yn cefnogi marchnad gofal cymdeithasol i oedolion sy'n gweithio'n well.

# 5 Y dull allbwn

Y dull terfynol o fesur GVA y sector gofal cymdeithasol i oedolion yw'r dull allbwn. Mae’n mesur allbwn y sector trwy amcangyfrif nifer yr unedau o bob math gwahanol o wasanaeth a ddarperir, a lluosi hyn gyda chost uned ar gyfer y gwasanaeth. Mae hyn yn amcangyfrif cyfanswm lefel yr allbwn (sy'n cyfateb i drosiant) yn y sector, y gellir wedyn ei drosi’n GVA (allbwn minws prynu nwyddau a gwasanaethau canolraddol).

## 5.1. Allbwn o ofal preswyl

### 5.1.1 Gofal preswyl i oedolion hŷn

Mae LaingBuisson (2017) yn darparu data defnyddiol yn ymwneud â darparu gwasanaethau gofal i bobl hŷn. Mae'r data hwn yn cynnwys capasiti cartrefi gofal nyrsio a gofal preswyl yng Nghymru a'r gyfradd deiliadaeth. Mae Llywodraeth Cymru’n cynhyrchu amcangyfrifon o gapasiti cartrefi gofal yng Nghymru hefyd, ac mae'r ffigurau’n agos iawn at y rhai sydd yn adroddiad LaingBuisson. Mae'r ffigurau yn LaingBuisson (2017) wedi'u defnyddio yn y dadansoddiad hwn.

Dengys y data mai'r sector preifat yw'r darparwr gofal cymdeithasol mwyaf i oedolion yng Nghymru, ac mae'n cynrychioli 66% o gyfanswm y capasiti gofal preswyl, ac 85% o gyfanswm y capasiti gofal nyrsio ar gyfer pobl hŷn (cyfanswm o 18,000 o welyau ar draws y sector cartrefi preswyl a nyrsio).

Mae'r Uned Ymchwil Gwasanaethau Cymdeithasol Personol (PSSRU) yn darparu amcangyfrifon blynyddol ar gyfer costau uned gofal cymdeithasol i oedolion yn Lloegr (PSSRU, 2016). Defnyddiwyd yr amcangyfrifon hyn i amcangyfrif allbwn gofal preswyl yng Nghymru ar gyfer 2015/16. Dewiswyd yr amcangyfrifon hyn gan eu bod yn darparu mwy o wahaniaethu yn ôl y math o ofal a darparwr. Mae'r PSSRU (2016) yn amcangyfrif costau uned ar gyfer Lloegr, ac mae'r prisiau hyn wedi'u haddasu i brisiau Cymru gan ddefnyddio gwybodaeth gan LaingBuisson (2017).

Mae Tabl 5.1 yn rhoi amcangyfrif o gyfanswm allbwn gofal preswyl a nyrsio i unigolion hŷn yng Nghymru. Cyfrifir hyn trwy luosi nifer y preswylwyr gyda’r gost wythnosol. Amcangyfrifir bod cyfanswm allbwn y sector gofal preswyl a nyrsio ar gyfer pobl hŷn yn fwy na £760 miliwn. Gan y sector preifat y mae’r allbwn mwyaf (£546 miliwn, 72% o'r holl allbwn), ac mae'r allbwn ar gyfer gofal nyrsio yn uwch na gofal preswyl (mae gofal nyrsio yn cynrychioli 57% o gyfanswm yr is-sector gofal preswyl a nyrsio).

Tabl 5.1 Capasiti ac allbwn amcangyfrifedig y sector cartrefi gofal – pobl hŷn

| | | Preifat | Gwirfoddol | Cyhoeddus | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| Capasiti (cyfanswm lleoedd) | Nyrsio | 10,800 | 1,000 | 1,000 | 12,800 |
| | Preswyl | 7,100 | 1,100 | 2,600 | 10,800 |
| Deiliadaeth (lleoedd) | Nyrsio | 10,200 | 900 | 900 | 12,000 |
| | Preswyl | 6,200 | 900 | 2,200 | 9,400 |
| Allbwn (£’000) | Nyrsio | 360,839 | 31,830 | 55,724 | 448,394 |
| | Preswyl | 185,002 | 27,410 | 112,106 | 324,517 |
| Cost uned (£ | Nyrsio | 680 | 680 | 1,170 | |

| | | Preifat | Gwirfoddol | Cyhoeddus | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| yr wythnos) | Preswyl | 570 | 570 | 970 | |

*Ffynhonnell: LaingBuisson (2017) Care of Older People; StatsCymru: Oedolion sy'n derbyn gwasanaethau yn ôl awdurdod lleol, categori'r cleient ac oedran; Cofrestr gwasanaethau AGGCC; PSSRU Unit Cost of Health and Social Care (2016)*

### 5.1.2 Gofal preswyl i oedolion iau

Nid yw'r data o LaingBuisson (2017) yn rhoi darlun llawn o'r sector gofal cymdeithasol preswyl i oedolion. Nid yw'n darparu amcangyfrifon o gapasiti na deiliadaeth gwasanaethau gofal preswyl a nyrsio a ddarperir i oedolion iau (18 - 64 oed).

Mae Llywodraeth Cymru'n darparu ystadegau ar gyfer nifer y gwelyau sydd ar gael a'r nifer cyfartalog o oedolion iau ag anghenion iechyd meddwl ac anableddau dysgu sy'n preswylio mewn cyfleusterau gofal preswyl a nyrsio yng Nghymru. Defnyddiwyd yr ystadegau hyn i amcangyfrif y capasiti a'r allbwn ar gyfer gofal preswyl i oedolion ag anghenion iechyd meddwl ac anableddau dysgu.

Mae cost uned gofal preswyl ar gyfer oedolion ag anghenion iechyd meddwl ac anableddau dysgu wedi'i gyfrifo gan ddefnyddio amcangyfrifon PSSRU (2016) o gost uned gofal cymdeithasol yn Lloegr. Mae'r costau uned wedi'u pwysoli ar sail nifer yr unigolion sydd ag anghenion iechyd meddwl ac anableddau dysgu yng Nghymru, ac mae'r prisiau wedi'u haddasu i brisiau Cymru gan ddefnyddio gwybodaeth gan LaingBuisson (2017).

Gan ddefnyddio'r wybodaeth a ddisgrifir uchod, mae Tabl 5.2 yn dangos yr allbwn amcangyfrifedig ar gyfer gofal preswyl i oedolion iau ag anableddau dysgu ac anghenion iechyd meddwl. Yn 2015/16, amcangyfrifir bod gan yr is-sector hwn allbwn o £177 miliwn yng Nghymru.

Tabl 5.2 Capasiti ac allbwn amcangyfrifedig y sector cartrefi gofal – oedolion iau

| | | Preifat | Gwirfoddol | Cyhoeddus | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| Capasiti (cyfanswm lleoedd) | Nyrsio | - | - | - | - |
| | Preswyl | - | - | - | 3,600 |
| Deiliadaeth (lleoedd) | Nyrsio | - | - | - | - |
| | Preswyl | - | - | - | 3,400 |
| Allbwn (£'000) | Nyrsio | - | - | - | - |
| | Preswyl | - | - | - | 176,885 |
| Cost uned (£ yr wythnos) | Nyrsio | - | - | - | - |
| | Preswyl | - | - | - | 990 |

*Ffynhonnell: PSSRU Unit Cost of Health and Social Care (2016); LaingBuisson (2017); StatsCymru: Oedolion sy'n derbyn gwasanaethau yn ôl awdurdod lleol, categori'r cleient ac oedran.*

## 5.2. Allbwn o ofal cymdeithasol di-breswyl i oedolion

Defnyddiwyd dull yn defnyddio data gan Lywodraeth Cymru a PSSRU i amcangyfrif allbwn y sector gofal dibreswyl yng Nghymru.

Mae Llywodraeth Cymru'n darparu data ar gyfer nifer yr unigolion sy'n derbyn gwahanol fathau o ofal dibreswyl yng Nghymru. Mae hyn yn rhoi manylion nifer y bobl sy'n derbyn arian cyhoeddus ar gyfer gofal (31,000) ond nid nifer yr hunan-

arianwyr. Y nifer amcangyfrifedig o hunan-arianwyr sy'n derbyn gofal dibreswyl yw 8,600. Nifer yr unigolion sy'n derbyn gofal yw cyfanswm yr hunan-arianwyr a'r rhai sy'n derbyn taliad ar gyfer eu gofal.

Mae costau'r uned ar gyfer gofal dibreswyl wedi'i gyfrifo o amcangyfrifon PSSRU (2016). Amcangyfrifir y cyfanswm allbwn trwy luosi cost yr uned gyda nifer y defnyddwyr a lefel y gofal a ddefnyddir bob blwyddyn. Nid oedd modd amcangyfrif defnydd a chost uned gwasanaethau eraill, oherwydd yr amrywiaeth eang o wasanaethau a gaiff eu cynnwys mewn gwasanaethau eraill a'r diffyg yn y data sydd ar gael. Felly, defnyddiwyd lefel y gwariant fel gwerth allbwn ar gyfer gwasanaethau eraill.

Mae Tabl 5.3 yn dangos allbwn y sector gofal dibreswyl. Mae hyn yn dangos yr amcangyfrifir bod cyfanswm allbwn y sector yng Nghymru bron yn £800 miliwn yn 2015/16. Y sector gofal cartref sydd â'r allbwn mwyaf yn y sector gofal dibreswyl yng Nghymru.

Tabl 5.3 Allbwn amcangyfrifedig sectorau eraill gofal cymdeithasol i oedolion

| | Nifer y defnyddwyr | Uned fesul person y flwyddyn | Cost uned (£) | Cyfanswm allbwn (£'000) |
|---|---|---|---|---|
| Gofal cartref | 29,400 | 572 | 23 | 383,486 |
| Gofal dydd | 10,100 | 130 | 67 | 88,930 |
| Arall | 15,000 | - | - | 300,648 |
| Taliadau uniongyrchol[6] | 1,700 | 884 | 15 | 22,530 |
| **Cyfanswm** | | | | **795,594** |

*Ffynhonnell: StatsCymru: Oedolion sy'n derbyn gwasanaethau yn ôl awdurdod lleol, categori'r cleient ac oedran; PSSRU Unit Cost of Health and Social Care (2016); UK Home Care Association (2016) An overview of the domiciliary care market in the UK; Dadansoddiad ICF*

## 5.3. GVA amcangyfrifedig

Dangosir gwerth amcangyfrifedig GVA yn y sector gofal cymdeithasol i oedolion yng Nghymru yn Nhabl 5.4. Mae'r GVA wedi'i gyfrifo gan ddefnyddio'r allbwn amcangyfrifedig yn y sector a ddisgrifir uchod, a chymarebau trosiant i GVA o'r ABS ar gyfer diwydianau perthnasol. Mae defnyddio'r cymarebau hyn mewn perthynas â'r gwariant amcangyfrifedig yn darparu trydydd amcangyfrif o £1.2 biliwn GVA ar gyfer y sector yng Nghymru yn 2015/16. Y sectorau gofal preswyl a nyrsio sydd â'r GVA amcangyfrifedig mwyaf (£743 miliwn; 33% a 31% o'r cyfanswm GVA).

Tabl 5.4 Amcangyfrifon allbwn gofal cymdeithasol i oedolion a GVA cysylltiedig

| | Cyfanswm allbwn (£'000) | Cymhareb trosiant i GVA | GVA (£'000) |
|---|---|---|---|
| Gofal preswyl | 501,402 | 77% | 386,037 |
| Gofal nyrsio | 448,394 | 80% | 357,304 |
| Gofal cartref | 383,486 | 49% | 186,402 |
| Gofal dydd | 88,930 | 49% | 43,226 |

[6] Cynnwys unigolion sy'n cyflogi Cynorthwywyr Personol yn unig

| | Cyfanswm allbwn (£'000) | Cymhareb trosiant i GVA | GVA (£'000) |
|---|---|---|---|
| Gwasanaethau eraill | 300,648 | 67% | 200,342 |
| Taliadau uniongyrchol | 22,530 | 49%[7] | 10,951 |
| **Cyfanswm** | **1,745,390** | | **1,184,262** |

*Ffynhonnell: StatsCymru: Oedolion sy'n derbyn gwasanaethau yn ôl awdurdod lleol, categori'r cleient ac oedran; LaingBuisson (2017); PSSRU Unit Cost of Health and Social Care (2016); Arolwg Busnes Blynyddol; Dadansoddiad ICF*

### Tystiolaeth 4 Manteision economaidd ychwanegol y sector gofal cymdeithasol i oedolion

Yn ogystal â gwerth economaidd uniongyrchol y sector gofal cymdeithasol i oedolion, mae'r gweithgareddau a ddarperir yn sicrhau manteision ac effeithiau ychwanegol i'r economi ehangach hefyd. Mae'r effeithiau ychwanegol hyn yn cynnwys:

**Iechyd:** Gall darparu gofal cymdeithasol o safon uchel i oedolion helpu i ostwng nifer y derbyniadau i'r ysbyty a'r niferoedd o blith y rhai sy'n derbyn gofal sy'n mynd i unedau Damweiniau ac Achosion Brys. Gall helpu i leihau'r pwysau ar y gwasanaeth iechyd hefyd trwy leihau oedi i bobl sy'n barod i adael yr ysbyty. Mantais bellach sydd gan sector gofal cymdeithasol o ansawdd uchel i oedolion yw ei fod yn lleihau'r straen ar ofalwyr di-dâl. Mae hyn yn golygu bod gofalwyr di-dâl yn llai tebygol o fod angen cymryd absenoldeb o'u cyflogaeth â thâl neu fod yn absennol o'u swydd (os ydynt yn cael eu cyflogi) oherwydd y straen o ddarparu gofal.

**Cyflogaeth:** Gall sector gofal cymdeithasol o ansawdd uchel i oedolion helpu i gynorthwyo unigolion sy'n derbyn gofal a gofalwyr di-dâl barhau mewn cyflogaeth neu gychwyn/ail-gychwyn yn y gweithlu. Pan fo unigolyn sy'n derbyn gofal yn derbyn cymorth rheolaidd sy'n diwallu eu hanghenion, gallan nhw ac unrhyw ofalwyr di-dâl sy'n rhoi cymorth iddynt wneud trefniadau priodol os ydynt am ddechrau gweithio neu barhau i weithio. Mae hyn yn helpu economi'r DU trwy ddarparu cyflenwad o weithwyr a allai ddatrys bylchau sgiliau a llenwi swyddi anodd eu llenwi yn yr economi o bosib.

[7] Mae'r gymhareb trosiant i GVA yn wahanol yma i'r un a ddefnyddir yn adran 4.3. Mae hyn oherwydd bod yr amcangyfrif hwn yn unig ar gyfer unigolion sy'n cyflogi naill ai Cynorthwywyr Personol (felly amcangyfrifir bod y trosiant i gymhareb GVA yr un fath â gofal cartref). Yn adran 4.3, mae pob unigolyn sy'n derbyn cyllid hunangyfeiriedig wedi'i gynnwys yn y llinell Taliadau Uniongyrchol, felly mae'r trosiant i gymhareb GYC yn adlewyrchu'r holl weithgareddau gofal y gallent ddefnyddio eu cyllid.

# 6 Effeithiau anuniongyrchol ac effeithiau a achosir

## 6.1 Cyflwyniad

Mae'r adrannau blaenorol yn amcangyfrif cyfraniad economaidd uniongyrchol y sector gofal cymdeithasol i oedolion yng Nghymru. Mae'r adran yn adeiladu ar y dadansoddiad hwnnw er mwyn cyflwyno amcangyfrifon o gyfraniad ychwanegol y sector gofal cymdeithasol i oedolion i'r economi ehangach drwy:

- **Effeithiau anuniongyrchol** – o ganlyniad i'r nwyddau a'r gwasanaethau canolraddol a brynir gan y sector gofal cymdeithasol i oedolion wrth iddo ddarparu ei wasanaethau, sy'n cefnogi cyflogaeth ychwanegol a GVA yn ei gadwyn gyflenwi; a
- **Effeithiau a achosir** - o ganlyniad i'r hyn a brynir gan bobl a gyflogir yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol gan y sector gofal cymdeithasol i oedolion, sy'n defnyddio eu henillion i brynu nwyddau a gwasanaethau eraill.

## 6.2 Effeithiau anuniongyrchol

Mae'r sector gofal cymdeithasol i oedolion yn prynu amrywiaeth eang o nwyddau a gwasanaethau gan gyflenwyr mewn sectorau eraill i gynorthwyo gyda'r gwaith o ddarparu gwasanaethau gofal cymdeithasol i oedolion. Bydd enghreifftiau cyffredin o'r hyn a brynir gan y sector gofal cymdeithasol i oedolion yn cynnwys cynhyrchion a gwasanaethau glanhau, bwyd a diod, gwasanaethau cynnal a chadw adeiladau, gwasanaethau, gwasanaethau ariannol, addysg a hyfforddiant, dodrefn a nwyddau'r cartref, cyflenwadau meddygol, gwasanaethau trafnidiaeth a thanwydd ac ati.

Caiff y rhain eu hadnabod fel pryniannau canolraddol, a bydd y rhai a wnaed gan y sector gofal cymdeithasol i oedolion yn cefnogi cyflogaeth a GVA ymysg busnesau'r gadwyn gyflenwi. Amcangyfrifir effeithiau anuniongyrchol gan ddefnyddio lluosyddion Math I (effeithiau sy'n gysylltiedig â chyflenwi). Mae'r ONS yn llunio amcangyfrifon o luosyddion Math 1, y gellir eu defnyddio i amcangyfrif effeithiau anuniongyrchol cynhyrchion a gwasanaethau gwahanol ar economi ehangach y DU. Gan nad oes tablau mewnbwn-allbwn (tablau I-O) yn benodol i Gymru, mae'r lluosyddion ar gyfer y DU cyfan wedi'u defnyddio.

Mae tablau[8] dadansoddol I-O diweddaraf y DU yn darparu amcangyfrifon o GVA Math I, lluosyddion allbwn a chyflogaeth. Grŵp cynhyrchu perthnasol yr astudiaeth hon yw gweithgarwch Gofal Preswyl a Gwaith Cymdeithasol. Mae'r grŵp cynnyrch hwn yn cyfateb yn union i isadrannau SIC 87 a 88 ac felly mae'n cynnwys holl weithgarwch y maes gofal cymdeithasol i oedolion yn ogystal â gweithgarwch gofal cymdeithasol sy'n gysylltiedig â phlant. Mae'n annhebygol bod yr effeithiau anuniongyrchol yng ngweithgarwch y gwasanaeth cymdeithasol i oedolion yn wahanol i'r rhai mewn gwasanaethau gofal cymdeithasol i blant. Felly, tybiwyd bod y lluosyddion hyn yn briodol ar gyfer amcangyfrif effeithiau anuniongyrchol gweithgarwch gofal cymdeithasol i oedolion.

Mae'r tablau I-O yn cynhyrchu lluosyddion allbwn ar wahân ar gyfer gweithgarwch gofal cymdeithasol a ddarparwyd fel a ganlyn:

---

[8] Tablau Dadansoddol Mewnbwn-Allbwn Manwl y DU, ONS, 2013 *(yn cyd-fynd â UK National Accounts Blue Book ac UK Balance of Payments Pink Book)*

- Y sector preifat - y lluosydd GVA yw 1.32, sy'n awgrymu o bob £1 o GVA a gynhyrchir gan weithgarwch gofal cymdeithasol i oedolion yn y sector preifat, y cynhyrchir £0.32 yn ychwanegol o GVA yng ngweddill yr economi. Y lluosydd cyflogaeth yw 1.30, sy'n awgrymu o bob un swydd yn y sector gofal cymdeithasol i oedolion, darperir 0.30 swydd yn ychwanegol yng ngweddill yr economi.
- Y sector cyhoeddus - y lluosydd GVA yw 1.94, sy'n awgrymu o bob £1 o GVA a gynhyrchir gan weithgarwch y sector cyhoeddus, y cynhyrchir £0.94 yn ychwanegol o GVA yng ngweddill yr economi. Y lluosydd cyflogaeth yw 1.65, sy'n awgrymu o bob un swydd yn y sector gofal cymdeithasol i oedolion, y darperir 0.65 swydd yn ychwanegol yng ngweddill yr economi; a
- Y sector dielw / gwirfoddol - y lluosydd GVA yw 1.56, sy'n awgrymu o bob £1 o GVA a gynhyrchir gan y sector gwirfoddol, y cynhyrchir £0.56 yn ychwanegol o GVA yng ngweddill yr economi. Y lluosydd cyflogaeth yw 1.37, sy'n awgrymu o bob un swydd yn y sector gofal cymdeithasol i oedolion, y darperir 0.37 swydd yn ychwanegol yng ngweddill yr economi.

Caiff y lluosyddion Math 1 eu cymhwyso i'r amcangyfrifon o gyfraniad economaidd uniongyrchol y sector gofal cymdeithasol i oedolion yn Nhabl 6.1. Dengys y tabl bod effeithiau anuniongyrchol pryniannau canolraddol a wneir gan y sector gofal cymdeithasol i oedolion yn cyfrannu 31,000 yn ychwanegol o swyddi[9] a rhwng £545 a £584 miliwn o GVA yng Nghymru.

Mae'r GVA ychwanegol a brofwyd gan fusnesau'r gadwyn gyflenwi yn cynrychioli 48% o gyfraniad uniongyrchol y sector. Mae'r effeithiau anuniongyrchol i'w gweld fwyaf yn y sector preifat, gan adlewyrchu ar eu pwysigrwydd cymharol yn y sector. Mae'r swyddi ychwanegol a gynhyrchir ym musnesau'r gadwyn gyflenwi o ganlyniad i'r ffaith bod gweithgarwch gofal cymdeithasol i oedolion yn cynrychioli 37% o gyfanswm y gyflogaeth yn y sector.

Tabl 6.1 Gwerth economaidd uniongyrchol ac anuniongyrchol y sector gofal cymdeithasol i oedolion

| | Dull Incwm | Dull Gwariant | Dull Allbwn |
|---|---|---|---|
| ***GVA*** | | | |
| GVA (sector cyhoeddus) (£'000) | 245,020 | 278,105 | 254,974 |
| GVA (sector cyhoeddus) (£'000) | 764,069 | 811,197 | 817,141 |
| GVA (sector gwirfoddol) (£'000) | 144,460 | 113,658 | 112,147 |
| **Cyfanswm GVA (£'000)** | **1,153,549** | **1,202,959** | **1,184,262** |
| Lluosydd Math I | Preifat: 1.32<br>Cyhoeddus: 1.94<br>Gwirfoddol: 1.56 | | |
| GVA Anuniongyrchol (sector cyhoeddus) (£'000) | 229,248 | 260,203 | 238,561 |
| GVA Anuniongyrchol (sector preifat) (£'000) | 244,048 | 259,139 | 261,038 |
| GVA Anuniongyrchol (sector gwirfoddol) (£'000) | 80,406 | 63,262 | 62,421 |
| **Cyfanswm GVA anuniongyrchol (£'000)** | **553,738** | **582,604** | **562,020** |
| **Cyfanswm GVA uniongyrchol ac anuniongyrchol (£'000)** | **1,707,287** | **1,785,563** | **1,746,283** |

[9] Swyddi yw'r rhain, nid FTE.

| | Dull Incwm | Dull Gwariant | Dull Allbwn |
|---|---|---|---|
| ***Cyflogaeth*** | | | |
| Cyflogaeth uniongyrchol (cyhoeddus) | | 16,000 | |
| Cyflogaeth uniongyrchol (preifat) | | 55,700 | |
| Cyflogaeth uniongyrchol (gwirfoddol) | | 11,700 | |
| **Cyfanswm cyflogaeth uniongyrchol** | | **83,400** | |
| Lluosydd Math I | | Preifat: 1.30<br>Cyhoeddus: 1.65<br>Gwirfoddol: 1.37 | |
| Cyflogaeth anuniongyrchol (sector cyhoeddus) | | 10,400 | |
| Cyflogaeth anuniongyrchol (sector preifat) | | 16,500 | |
| Cyflogaeth anuniongyrchol (sector gwirfoddol ) | | 4,300 | |
| **Cyfanswm cyflogaeth anuniongyrchol** | | **31,200** | |
| **Cyfanswm cyflogaeth uniongyrchol ac anuniongyrchol** | | **114,600** | |

*Ffynhonnell: Dadansoddiad ICF; Gwerthoedd cyflogaeth wedi'u talgrynnu i'r 100 agosaf.*

## 6.3 Effeithiau a Achosir[10]

Caiff effeithiau a achosir eu hasesu gan ddefnyddio lluosyddion Math II sy'n cipio effeithiau anuniongyrchol ac a achosir. Mae tablau I-O yn darparu gwybodaeth y gellir ei defnyddio i amcangyfrif lluosyddion Math II yn y DU. Am ddisgrifiad manwl o'r dull a ddefnyddir i amcangyfrif lluosyddion Math II, gweler 0. Dyma'r lluosyddion Math II perthnasol:

- y sector preifat - y lluosydd GVA yw 1.74 a'r lluosydd cyflogaeth yw 1.43;
- y sector cyhoeddus - y lluosydd GVA yw 2.55 a'r lluosydd cyflogaeth yw 1.82; a
- y sector dielw / gwirfoddol - y lluosydd GVA yw 2.05 a'r lluosydd cyflogaeth yw 1.52.

Caiff y lluosyddion Math II eu rhannu gan luosyddion Math 1 er mwyn rhoi gwerth i'r lluosydd (1.32 ar gyfer GVA, 1.11 ar gyfer cyflogaeth). Mae'r lluosyddion a achosir wedi'u lluosi gan y gyflogaeth uniongyrchol ac anuniongyrchol a gwerthoedd GVA er mwyn amcangyfrif GVA a chyflogaeth a achosir. Mae'r canlyniadau wedi'u cyflwyno yn Nhabl 6.2.

[10] Mae ICF yn credu y gall fod yn gamarweiniol priodoli'r holl effeithiau a achosir i gyfraniad economaidd sector penodol ar lefel genedlaethaol. Gellir priodoli'n glir effeithiau anuniongyrchol sy'n gysylltiedig â phryniannau nwyddau a gwasanaethau canolraddol i'r sector gofal cymdeithasol i oedolion gan nad dyma fyddai'r achos pe na bai'r setor gofal cymdeithasol yn bodoli. Nid yw'r un peth yn wir am effeithiau a achosir. Os nad oedd y sector gofal cymdeithasol i oedolion yn bodoli, mae'n annhebygol y byddai'r pryniannau nwyddau a gwasanaethau a wneir gan y rhan fwyaf o weithiwr yn y sector yn newid yn sylweddol. Byddai gweithwyr a fyddai, yn absenoldeb y sector gofal cymdeithasol i oedolion, yn ddiwaith (ac yn derbyn budd-daliadau) yn darparu effeithiau a achosir (gwerth net y taliadau budd-dal y wladwriaeth). Fodd bynnag, byddai llawer o'r rhai a gyflogir yn uniongyrchol neu'n uniongyrchol gan y sector gofal cymdeithasol i oedolion yn cael eu cyflogi mewn swyddi eraill mewn sectorau eraill pe na bai'r sector gofal cymdeithasol i oedolion yn bodoli. Dyma'r achos ar gyfer pob sector a diwydiant. Felly, gall fod yn gamarweiniol cynrychioli'r effeithiau a achosir hyn fel rhai y gellir eu priodoli i'r sector ac fel rhai a fyddai'n peidio â bod yn absenoldeb y sector.

Mae’r canlyniadau’n awgrymu yr amcangyfrifir bod effeithiau a achosir (sy’n gysylltiedig â phryniannau nwyddau a gwasanaethau gan unigolion a gyflogir yn uniongyrchol neu’n anuniongyrchol gan y sector) yn cefnogi 12,000 yn rhagor o swyddi a rhwng £543 miliwn a £567 miliwn a mwy o GVA yn yr economi ehangach. Mae’r effaith GVA a achosir yn debyg i’r effaith GVA anuniongyrchol, ond mae’n sylweddol is na’r effaith anuniongyrchol ar swyddi.

Tabl 6.2: Gwerth a achosir a chyfanswm gwerth economaidd y sector gofal cymdeithasol i oedolion

| | Dull incwm | Dull gwariant | Dull allbwn |
|---|---|---|---|
| ***GVA*** | | | |
| GVA (sector gyhoeddus) (£’000) | 245,020 | 278,105 | 254,974 |
| GVA (sector preifat) (£’000) | 764,069 | 811,197 | 817,141 |
| GVA (sector gwirfoddol) (£’000) | 144,460 | 113,658 | 112,147 |
| **Cyfanswm GVA (£’000)** | **1,153,549** | **1,202,959** | **1,184,262** |
| Lluosydd Math II | Private: 1.74<br>Public: 2.55<br>Voluntary: 2.05 | | |
| Lluosydd a achosir | 1.32 | | |
| Lluosydd GVA (sector gyhoeddus) (£’000) | 150,710 | 171,061 | 156,883 |
| Lluosydd GVA (sector preifat) (£’000) | 320,365 | 340,125 | 342,618 |
| Lluosydd GVA (sector gwirfoddol) (£’000) | 71,457 | 56,221 | 55,473 |
| **Cyfanswm GVA a achosir (£’000)** | **542,532** | **567,406** | **554,924** |
| **Cyfanswm GVA uniongyrchol, anuiongyrchol ac achosir (£’000)** | **2,249,820** | **2,352,970** | **2,301,207** |
| ***Cyflogaeth*** | | | |
| Cyflogaeth uniongyrchol (cyhoeddus) | 16,000 | | |
| Cyflogaeth uniongyrchol (prefiat) | 55,700 | | |
| Cyflogaeth uniongyrchol (gwirfoddol) | 11,700 | | |
| Cyfanswm cyflogaeth uniongyrchol | 83,400 | | |
| Lluosydd Math II | Private: 1.43<br>Public: 1.82<br>Voluntary: 1.52 | | |
| Lluosydd a achosir | 1.11 | | |
| Cyflogaeth a achosir (sector cyhoeddus) | 2,800 | | |
| Cyflogaeth a achosir (sector preifat) | 7,700 | | |
| Cyflogaeth a achosir (sector gwirfoddol) | 1,700 | | |
| **Cyfanswm cyflogaeth a achosir** | **12,200** | | |
| **Cyfanswm cyflogaeth uniongyrchol, anuniongyrchol ac achosir** | **126,800** | | |

*Ffynhonnell: Dadansoddiadau ICF; Gwerthoedd cyflogaeth wedi’u talgrynnu i’r 100 agosaf.*

## 6.4 Cyfraniad y sector gofal cymdeithasol i oedolion yng Nghymru yn ei gyfanrwydd

Amcangyfrifir bod y sector gofal cymdeithasol i oedolion yn cefnogi 127,000 o swyddi a rhwng £2.2 biliwn a £2.4 biliwn o GVA yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys yr holl effeithiau uniongyrchol, anuniongyrchol ac a achosir. Mae'r effeithiau anuniongyrchol ac a achosir yn llai nag effeithiau economaidd uniongyrchol y sector gofal cymdeithasol i oedolion. Mae'r effeithiau anuniongyrchol ac a achosir yn cyfrif am tua 95% o'r GVA uniongyrchol a gynhyrchir, a thua hanner y cyfanswm cyflogaeth uniongyrchol (52%).

Mae darparwyr sector cyhoeddus ar gyfer gwasanaethau gofal cymdeithasol i oedolion a'u gwariant cysylltiedig yn cefnogi 23% o gyfanswm y swyddi a rhwng 27% a 29% o'r GVA (gan gynnwys effeithiau anuniongyrchol ac a achosir). Mae hyn er gwaethaf y ffaith bod y sector cyhoeddus yn cynrychioli 19% o gyflogaeth a rhwng 21% a 23% o'r GVA uniongyrchol. Mae'r gwahaniaethau oherwydd bod effeithiau lluosyddion y sector cyhoeddus yn uwch nag ar gyfer y sector preifat.

Amcangyfrifir bod y sector cyffredinol ac effeithiau uniongyrchol, anuniongyrchol ac a achosir unrhyw wariant cysylltiedig yn cynrychioli rhwng 3.8% a 3.9% o'r holl GVA a 9% o'r holl swyddi yng Nghymru.

**Tystiolaeth 5 Gwerth gofal anffurfiol yng Nghymru**

Mae'r ymchwil hwn yn darparu tystiolaeth o werth economaidd y sector gofal cymdeithasol i oedolion yng Nghymru. Fodd bynnag, mae gwaith y sector yn cael ei gefnogi gan unigolion di-dâl sy'n darparu gofal anffurfiol i aelodau o'r teulu neu ffrindiau. Mae GofalwyrCymru wedi amcangyfrif gwerth y gofal anffurfiol a ddarperir yng Nghymru.

Mae'r ymchwil yn defnyddio data o Gyfrifiad 2011 ac amcangyfrifon poblogaeth i gyfrifo bod dros 380,000 o unigolion yn darparu bron i 479 miliwn o oriau o ofal anffurfiol i oedolion yng Nghymru yn 2015. Gan ddefnyddio amcangyfrif o £17 yr awr o ofal a ddarperir, amcangyfrifwyd bod gwerth gofal anffurfiol dros £8 biliwn yng Nghymru yn 2015 - yn fwy na gwerth y sector gofal cymdeithasol i oedolion yng Nghymru.

.

# 7. Casgliad

Mae’r adran hon yn rhoi crynodeb o brif ganfyddiadau’r dadansoddiad economaidd, gan gynnwys y pum prif ddangosydd a nodir yn nodau’r ymchwil. Yna caiff y dangosyddion economaidd eu cymharu â sectorau eraill yng Nghymru, fel y gellir nodi maint a graddfa’r sector gofal cymdeithasol i oedolion.

## 7.1 Crynodeb o’r canfyddiadau

Cyflwynir prif ganfyddiadau’r gwaith ymchwil yn Nhabl 7.1. Mae’n dangos yr amcangyfrifwyd bod dros 83,000 o unigolion yn cael eu cyflogi yn y sector gofal cymdeithasol i oedolion yn 2016, ac roedd dros 62,000 FTE. Cynhyrchodd yr unigolion hyn tua £1.2 biliwn mewn GVA, ac amcangyfrifwyd bod lefel y cynhyrchiant (GVA fesul gweithiwr) rhwng £18,700 a £19,500 fesul FTE.

Amcangyfrifwyd mai effaith anuniongyrchol y sector gofal cymdeithasol i oedolion yw cyflogaeth 31,000 o bobl (neu 23,000 o swyddi FTE) a rhwng £554 a £583 miliwn mewn GVA. Mae’r effaith anuniongyrchol o ganlyniad i bryniannau nwyddau a gwasanaethau canolraddol gan y sector gofal cymdeithasol i oedolion.

Amcangyfrifir mai effaith a achosir y sector gofal cymdeithasol i oedolion (gwariant ychwanegol gan y rhai a gyflogir yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol drwy’r sector gofal cymdeithasol i oedolion) yw cyflogaeth 12,000 (9,000 o swyddi FTE) a rhwng £543 miliwn a £567 miliwn GVA.

Amcangyfrifir bod cyfanswm gwerth uniongyrchol, anuniongyrchol ac a achosir y sector gofal cymdeithasol i oedolion yng Nghymru yn 127,000 o swyddi, bron i 94,000 FTE a rhwng £2.2 a £2.4 biliwn mewn GVA.

Tabl 7.1 Crynodeb o’r canfyddiadau

| | Dull incwm | Dull gwariant | Dull allbwn |
|---|---|---|---|
| Cyfanswm cyflogaeth uniongyrchol | | 83,400 | |
| Cyfanswm Cyflogaeth FTE | | 61,600 | |
| Cyfanswm GVA uniongyrchol (£’000) | 1,153,549 | 1,202,959 | 1,184,262 |
| Amcangyfrif o gynhyrchiant fesul unigolyn | 13,700 | 14,400 | 14,200 |
| Amcangyfrif o gynhyrchiant fesul FTE | 18,700 | 19,500 | 19,200 |
| Cyflogaeth anuniongyrchol (swyddi) | | 31,200 | |
| Cyflogaeth anuniongyrchol (FTE) | | 23,000 | |
| Cyflogaeth a achosir (swyddi) | | 12,200 | |
| Cyflogaeth a achosir (FTE) | | 9,000 | |
| Cyfanswm cyflogaeth o ganlyniad i weithgarwch goal cymdeithasol i oedolion (swyddi) | | 126,800 | |
| Cyfanswm cyflogaeth o ganlyniad i weithgarwch gofal cymdeithasol i oedolion (FTE) | | 93,600 | |
| GVA anuniongyrchol (£’000) | 553,738 | 582,604 | 562,020 |
| GVA a achosir (£’000) | 542,532 | 567,406 | 554,924 |
| **Cyfanswm GVA o ganlyniad i weithgarwch gofal cymdeithasol i oedolion (£’000)** | **2,249,820** | **2,352,970** | **2,301,207** |


*Ffynhonnell: Dadansoddiadau ICF; Gwerthoedd cyflogaeth a chynhyrchiant wedi'u talgrynnu i'r 100 agosaf.*

## 7.2 Meincnodi

Mae'r Arolwg Poblogaeth Blynyddol (APS) yn darparu amcangyfrifon o nifer yr unigolion sy'n gweithio ym mhob sector eang yng Nghymru. Mae hyn yn golygu y gellir cymharu graddfeydd cyflogaeth yn y sector gofal cymdeithasol i oedolion â sectorau eraill.

Mae Ffigur 7.1 yn cynrychioli cyflogaeth wedi'i ddadansoddi yn ôl y sector, gan gyfuno'r canfyddiadau o'r gwaith ymchwil hwn â data APS. Mae hyn yn dangos bod y sector gofal cymdeithasol i oedolion yn cyflogi mwy o weithwyr na'r gwasanaethau trafnidiaeth a storio, y gwasanaethau gweinyddol a chymorth a'r sectorau proffesiynol, gwyddonol a thechnegol. Mae cyflogaeth uniongyrchol gofal cymdeithasol i oedolion yn cynrychioli 6% o gyfanswm cyflogaeth yng Nghymru. Dengys hyn fod gofal cymdeithasol i oedolion yn sector pwysig o ran cyflogaeth gyfredol yng Nghymru.

Ffigur 7.1 Cyflogaeth yn ôl sector yng Nghymru (sectorau gyda'r gyflogaeth uchaf), 2016





*Ffynhonnell: Arolwg Poblogaeth Blynyddol; Dadansoddiadau ICF. Cyflogaeth wedi'i dalgrynnu i'r 100 agosaf. Gweithgarwch iechyd dynol a gwaith cymdeithasol wedi'u heithrio o'r dadansoddiad*

Mae'r amcangyfrif o werth GVA yn ôl diwydiant yng Nghymru wedi'i gyflwyno yn y gyfres o ystadegau Gwerth Ychwanegol Crynswth Rhanbarthol. Mae'n cyflwyno GVA yn ôl grŵp diwydiannol cyffredinol. Amcangyfrifwyd bod cyfanswm gwerth GVA yng Nghymru yn 2016 bron i £60 biliwn. Amcangyfrifwyd bod GVA uniongyrchol y sector gofal cymdeithasol i oedolion (£1.2 biliwn) yn cynrychioli 2% o gyfanswm GVA Cymru.

Mae Ffigur 7.2 yn cynrychioli amcangyfrifon GVA yn ôl sector, ar gyfer detholiad o sectorau economaidd. Mae hyn yn dangos bod gofal cymdeithasol i oedolion yn cynhyrchu gwerthoedd GVA is na sectorau gyda lefelau tebyg o gyflogaeth (er

enghraifft gwasanaethau trafnidiaeth, storio, llety a bwyd). Fodd bynnag, mae'n parhau i gynhyrchu cyfran sylweddol o GVA Cymru, a disgwylir i werth GVA yn y sector godi yn y dyfodol wrth i'r galw am wasanaethau gofal cymdeithasol i oedolion gynyddu.

Ffigur 7.2 GVA yn ôl sector cyffredinol (sectorau dethol), £miliynau, 2016




*Ffynhonnell: Cyfres o ystadegau GVA rhanbarthol; Dadansoddiadau ICF. Mae gweithgareddau iechyd dynol a gwaith cymdeithasol wedi'u heithrio o'r dadansoddiad*

## 7.3 Cymariaethau cenedlaethol

Roedd y gwaith ymchwil hwn yn golygu amcangyfrif gwerth y sector gofal cymdeithasol i oedolion yn holl wledydd y DU. Mae prif ganfyddiadau'r holl wledydd wedi'u crynhoi yn Nhabl 7.2. Mae hyn yn dangos bod y sector gofal cymdeithasol i oedolion yng Nghymru yn is nag yn Lloegr a'r Alban, ond yn uwch nag yng Ngogledd Iwerddon mewn termau absoliwt. Mae hyn i'w ddisgwyl o gofio poblogaeth Cymru. Dengys yr amcangyfrifon bod:

- Lefel cynhyrchiant yn y gweithlu yn is yng Nghymru nag yn Lloegr a'r Alban, ond yn gymharol â Gogledd Iwerddon;
- Mae GVA amcangyfrifedig y pen yng Nghymru yn debyg i Loegr, mae'n uwch na Gogledd Iwerddon ond yn is na'r Alban; a
- Mae gwerthoedd amcangyfrifedig y dull incwm yn is na'r amcangyfrifon ar gyfer gwariant a dulliau allbwn yr holl wledydd.
- Mae gwerth GVA gofal cymdeithasol i oedolion yn gymharol ar y cyfan ar draws holl wledydd y DU. Yr Alban sydd â'r gwerthoedd GVA uchaf y pen ym mhob dull.

Dyma rai o'r rhesymau y tu ôl i'r gwahaniaethau mewn GYC y pen ym mhob gwlad:

- Yn yr ymagwedd incwm, mae enillion yn uwch yn yr Alban na gwledydd eraill y DU.  Un rheswm am hyn yw cyflwyno'r cyflog byw yn y sector gofal cymdeithasol i oedolion yn yr Alban.  Er gwaethaf yr enillion uwch, mae nifer gymharol o staff cyfwerth ag amser llawn (y pen) yn yr Alban a gwledydd eraill y DU.

- Yng Ngogledd Iwerddon, nid yw'r nifer amcangyfrifedig o swyddi a call yn y sector gofal cymdeithasol i oedolion yn cwmpasu gwasanaethau nas rheoleiddir neu pas, ac nid yw'r enillion o'r swyddi hyn (a'r GYC dilynol) yn cael eu hamcangyfrif.  Mae hyn yn helpu i esbonio pam mae'r amcangyfrif o GYC y pen sy'n defnyddio'r dull incwm yn is yng Ngogledd Iwerddon nag yn y gwledydd eraill, a pham mae gwerthoedd cynhyrchiant Gogledd Iwerddon yn llawer uwch nag yn yr amcangyfrif incwm.

- Mae swm y gwariant cyhoeddus y pen ar ofal cymdeithasol i oedolion yn uwch yn yr Alban nag yn y gwledydd eraill.  Mae hyn yn helpu i egluro pam bod gwerth amcangyfrifedig y GYC y pen yn uwch yn yr Alban.

Tabl 7.2 Cymharu gwerth y sector gofal cymdeithasol i oedolion ledled y DU

| | Lloegr | Gogledd Iwerddon | Yr Alban | Cymru | Y DU |
|---|---|---|---|---|---|
| **Gwerth economaidd uniongyrchol** | | | | | |
| Dull incwm (£'000) | 20,277,218 | 544,333 | 2,278,427 | 1,153,549 | 24,253,526 |
| Dull gwariant (£'000) | 20,420,586 | 605,163 | 2,558,174 | 1,202,959 | 24,786,883 |
| Dull allbwn (£'000) | 21,651,931 | 550,653 | 2,511,150 | 1,184,262 | 25,897,996 |
| | | | | | |
| Swyddi | 1,488,000 | 38,500 | 147,800 | 83,400 | 1,756,100 |
| Swyddi FTE | 1,027,900 | 28,900 | 109,600 | 61,600 | 1,228,000 |
| | | | | | |
| **Cynhyrchiant fesul FTE** | | | | | |
| Dull incwm (£) | 19,700 | 18,800 | 20,800 | 18,700 | 19,700 |
| Dull gwariant (£) | 19,900 | 20,900 | 23,300 | 19,500 | 20,200 |
| Dull allbwn (£) | 21,100 | 19,100 | 22,900 | 19,200 | 21,100 |
| | | | | | |
| **GVA y pen** | | | | | |
| Dull incwm (£) | 370 | 290 | 420 | 370 | 370 |
| Dull gwariant (£) | 370 | 320 | 470 | 390 | 380 |
| Dull allbwn (£) | 390 | 300 | 460 | 380 | 390 |
| | | | | | |
| **GVA y pen 65+** | | | | | |
| Dull incwm (£) | 2,050 | 1,830 | 2,280 | 1,820 | 2,050 |
| Dull gwariant (£) | 2,070 | 2,030 | 2,560 | 1,900 | 2,100 |
| Dull allbwn (£) | 2,190 | 1,850 | 2,510 | 1,870 | 2,190 |

Dadansoddiadau ICF

# Rhan A: ATODIADAU

# Annex 1 Methodoleg

Mae'r atodiad hwn yn cyflwyno mwy o fanylion am y rhagdybiaethau a'r cyfrifiadau a ddefnyddiwyd i amcangyfrif, maint, strwythur a gwerth economaidd y sector gofal cymdeithasol i oedolion yng Nghymru. Ei nod yw darparu manylion mwy technegol am y fethodoleg a ddefnyddiwyd i sefydlu'r amcangyfrifon.

## A1.1 Cyflwyniad i'r tri dull o fesur GVA

Mae gwerth economaidd y sector wedi'i gyfrifo gan ddefnyddio tri dull gwahanol: y dull mewnbwn; y dull gwariant; a'r dull allbwn. Nod hyn yw gwneud yr amcangyfrifon yn fwy cadarn, gan fod yna gryfderau a gwendidau gydag ansawdd ac argaeledd y data sy'n ofynnol ar gyfer pob dull. Cyflwynir trosolwg byr o'r fethodoleg yma.

Mae'r dull incwm o fesur GVA yn ceisio mesur cyfanswm yr incwm a gynhyrchir gan y sector. Mae gan y dull incwm ddwy brif elfen: yr enillion / cyflogau a gynhyrchir gan weithwyr yn y sector; ac incwm ychwanegol a gynhyrchir gan y sector (er enghraifft elw a rhenti). Mae'r dulliau o fesur y ddwy elfen hyn o incwm fel a ganlyn:

- **Enillion / cyflogau**. Mae nifer y swyddi ac FTE mewn gwahanol wasanaethau gofal cymdeithasol i oedolion ac mewn mathau gwahanol o ddarparwyr wedi'u hamcangyfrif. Yna cafodd hyn ei luosi gan amcangyfrif o enillion cyfartalog FTE ar gyfer pob math o wasanaeth / darparwr. Rhoddodd hyn amcangyfrif o gyfanswm enillion yn y sector.
- **GOS**. Mae'r mathau eraill o incwm a gynhyrchir gan y sector wedi'i amcangyfrif gan ddefnyddio'r GOS. Y GOS yw incwm llai costau gweithredu (er enghraifft yr incwm a dderbyniwyd ar gyfer darparu awr o ofal cartref llai costau staff, trafnidiaeth a deunyddiau). Nid elw'r sector yn unig ydyw, gan nad yw'n cynnwys costau fel rhent, taliadau llog, dibrisiad nwyddau cyfalaf a phryniannau eithriadol. **Felly, mae'n bosibl i ddarparwr gynhyrchu GOS gan barhau i wneud colled economaidd**. Mae'r gwerth EDITBAR cyfartalog ar gyfer y sector gofal cartref (CMA, 2017) a gwerth cyfartalog yr hyn sy'n weddill ar gyfer y sector gofal cartref yn y DU (UKCHA, 2018) wedi'i luosi gan gyfanswm gwerth yr allbwn ar gyfer y gwasanaethau hyn er mwyn amcangyfrif y GOS.
- Cafodd y ddau fath hyn o incwm eu cyfuno er mwyn amcangyfrif y GVA yn y sector gofal cymdeithasol i oedolion.

Mae'r dull gwariant o fesur GVA yn cynnwys amcangyfrif cyfanswm lefel y gwariant ar ofal cymdeithasol i oedolion (cyllid cyhoeddus a phreifat). Defnyddir lefel y gwariant i fesur y gwariant yn y sector, sy'n cyfateb i drosiant busnes (gwerth nwyddau a gwasanaethau a werthir). Yna caiff ei drosi i GVA ar sail trosiant i gymarebau GVA a ddarperir yn yr Arolwg Busnes Blynyddol (ABS). Mae hyn yn cynrychioli diddymu pryniannau canolraddol. Gyda dull gwariant y sector gofal cymdeithasol i oedolion, mae'n ofynnol cael amcangyfrifon o ddau fath o wariant:

- Gwariant cyhoeddus a chyd-ariannu - lefel y gwariant gan y wladwriaeth. Caiff y data ar gyfer hyn ei gasglu o ystadegau cenedlaethol; a
- Hunan-ariannu. Mae hyn yn anoddach i'w amcangyfrif gan nad oes unrhyw ddata ar gael sy'n dangos nifer yr hunan-arianwyr. Amcangyfrifwyd nifer yr hunan-arianwyr gan ddefnyddio canfyddiadau o adolygiad cyflym o'r dystiolaeth. Cafodd nifer yr hunan-arianwyr ei luosi â chost gyfartalog fesul uned ar gyfer yr hunan-arianwyr ac mae eu galw am wasanaethau (nifer yr oriau o ofal cymdeithasol i oedolion sydd angen) er mwyn amcangyfrif cyfanswm gwerth gwariant hunan-arianwyr.

- Mae'r ddau fath hwn o wariant wedi'u cyfuno i amcangyfrif y GVA yn y sector gofal cymdeithasol i oedolion. Cafodd cyfanswm y gwariant ei drosi i GVA drwy luosi'r gwariant gyda'r trosiant i gymarebau GVA.

Mae'r dull allbwn o fesur GVA yn cynnwys lluosi nifer yr oriau o ofal cymdeithasol i oedolion a ddarperir â chost gyfartalog gofal cymdeithasol i oedolion. Roedd hyn yn darparu amcangyfrif o wariant yn y sector, a oedd yn cyfateb i drosiant busnes (gwerth y nwyddau a gwasanaethau a werthwyd). Yna mae'n cael ei drosi i GVA ar sail trosiant i gymarebau GVA a ddarperir yn yr Arolwg Busnes Blynyddol (ABS). Mae hyn yn cynrychioli diddymu pryniannau canolraddol. Roedd y dull gwariant ar gyfer y sector gofal cymdeithasol i oedolion yn golygu cael amcangyfrif o dri phrif gam:

- Nodi oriau'r gofal cymdeithasol i oedolion a ddarparwyd. Ar gyfer y sector cartrefi gofal, cafodd hyn ei amcangyfrif gan ddefnyddio gallu a gwybodaeth am ddefnydd cyfartalog o welyau ar gyfer cartrefi gofal. Ar gyfer y sector dibreswyl, casglwyd nifer y defnyddwyr gwasanaethau sy'n derbyn gofal dibreswyl a lluosi hyn â nifer cyfartalog yr oriau y mae defnyddiwr gwasanaethau angen y gwasanaeth.
- Lluosi nifer yr oriau a ddefnyddir ar gyfer pob gwasanaeth â chost gyfartalog y gwasanaeth er mwyn amcangyfrif cyfanswm gwerth y gwasanaethau a ddefnyddir (trosiant busnes).
- Trosi cyfanswm gwerth yr allbwn i GVA drwy luosi'r gwariant â'r trosiant i gymarebau GVA.

## A1.2 Maint a strwythur y sector gofal cymdeithasol i oedolion yng Nghymru

### A1.2.1 Nifer y safleoedd gofal cymdeithasol i oedolion

Mae nifer y safleoedd sy'n darparu gwasanaethau gofal cymdeithasol i oedolion a reoleiddir yng Nghymru wedi'i gymryd yn uniongyrchol o gronfa ddata CIW ac Adroddiad Blynyddol (2016). Mae'r gronfa ddata yn cynnwys safleoedd a oedd yn darparu gofal cymdeithasol a oedd y tu hwnt i faes gofal cymdeithasol i oedolion. Cafodd y gwasanaethau yn y gronfa ddata eu categoreiddio yn ôl y gwasanaeth a darparwyd, felly cafodd safleoedd gofal cymdeithasol nad oedd ar gyfer oedolion eu hepgor. Fe wnaeth hyn ddarparu amcangyfrifon o nifer safleoedd y darparwyr yn y sector gofal cymdeithasol i oedolion.

Ni chafodd unrhyw ddata ei gasglu ar nifer y safleoedd sy'n darparu gofal cymdeithasol i oedolion sydd heb eu rheoleiddio. Gallai gweithgarwch heb eu rheoleiddio gynnwys gofal cymunedol, cyngor a gwybodaeth, gwasanaethau bod yn gyfaill, gofal sydd ddim yn bersonol, gofal preswyl i unigolion digratref a llochesi i ferched. Er mwyn amcangyfrif nifer y safleoedd sy'n darparu gofal cymdeithasol i oedolion heb eu rheoleiddio yng Nghymru, defnyddiwyd data gan IDBR, CIW a SfC yn Lloegr.

Defnyddiwyd data gan IDBR, CIW a SfC yn Lloegr ar gyfer y dull hwn:

- Defnyddiwyd data gan IDBR a oedd yn dangos cyfanswm nifer y safleoedd lleol yn y dosbarthiadau cod perthnasol ar gyfer Dosbarthiad Diwydiannol Safonol yng Nghymru.
- Defnyddiwyd gwybodaeth gan SfC i amcangyfrif cyfran y safleoedd lleol hyn a oedd yn darparu gofal cymdeithasol i oedolion (gan fod dosbarth y cod SIC yn cynnwys darparwyr gwasanaethau gofalu ac elusennol eraill, fel gwasanaethau plant). Cafodd hyn ei luosi â nifer y safleoedd lleol yn yr IDBR ar gyfer Cymru er mwyn darparu amcangyfrif o gyfanswm nifer y safleoedd gofal cymdeithasol i oedolion. Cafodd hwn ei ddefnyddio fel amcangyfrif o gyfanswm nifer y safleoedd gofal cymdeithasol i oedolion yng Nghymru.

- Mae nifer y safleoedd gofal cymdeithasol i oedolion a reoleiddir (CIW) wedi'i dynnu o gyfanswm nifer y safleoedd gofal cymdeithasol i oedolion. Rhoddodd hyn amcangyfrif o nifer y safleoedd gofal cymdeithasol i oedolion heb eu rheoleiddio yng Nghymru.

Mae'r wybodaeth hon wedi'i chrynhoi yn Nhabl A1.1.

Tabl A1.1 Nifer y safleoedd lleol sydd heb eu rheoleiddio

| | Gofal preswyl (SIC 87) | Gofal di-breswyl (SIC 88) | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| IDBR | 1,750 | 2,240 | 3,980 |
| Y gyfran y tybir eu bod yn ofal cymdeithasol i oedolion | 77% | 32% | |
| Amcangyfrif o nifer y safleoedd gofal cymdeithasol i oedolion yn IDBR | 1,350 | 710 | 2,060 |
| Amcangyfrif o nifer y safleoedd gofal cymdeithasol i oedolion a reoleiddir yng nghronfa ddata CIW[11] | 1,090 | 490 | 1,580 |
| Amcangyfrif o nifer y safleoedd gofal cymdeithasol i oedolion heb eu rheoleiddio | 260 | 220 | 480 |

*Ffynhonnell: IDBR; Cronfa ddata gwasanaethau a reoleiddir gan CIW; Data SfC; Cyfrifiadau ICF; Data wedi'u talgrynnu i'r 10 agosaf*

## A1.2.2 Maint a strwythur y gweithlu gofal cymdeithasol i oedolion

Mae Llywodraeth Cymru yn casglu nifer y gweithwyr sector cyhoeddus yn y sector gofal cymdeithasol i oedolion yng Nghymru, ac mae'r wybodaeth ar gael i'r cyhoedd. Mae'r data hwn yn gwahaniaethu staff yn ôl y math o wasanaeth a ddarparant. Mae'r data yn darparu nifer y staff FTE ym mhob math o wasanaeth hefyd. Cafodd y rhain eu defnyddio'n uniongyrchol yn y dadansoddiadau ar faint y gweithlu gofal cymdeithasol i oedolion.

Roedd data Llywodraeth Cymru hefyd yn cynnwys amcangyfrifon o nifer y staff sy'n gweithio yn y maes gofal cymdeithasol i blant, a nifer y staff rheoli/gweinyddu/cymorth. Byddai rhai o'r staff ategol hyn yn gweithio yn y sector gofal cymdeithasol i oedolion. Mae'n hanfodol cofnodi'r staff hyn, gan mai nod y gwaith ymchwil yw disgrifio'r sector gofal cymdeithasol i oedolion, nid dim ond yr unigolion sy'n darparu gofal cymdeithasol i oedolion.

Cafodd staff rheoli/gweinyddu/cymorth y sector cyhoeddus sy'n gweithio yn y sector gofal cymdeithasol i oedolion eu cyfrifo drwy amcangyfrif cyfran o gyfanswm yr amser gofal cymdeithasol a oedd ar gyfer gofal cymdeithasol i oedolion (65%), a lluosi hyn â chyfanswm nifer y staff ategol.

Darparwyd nifer y staff sy'n gweithio yn y sector annibynnol gan Gofal Cymdeithasol Cymru, gan ddefnyddio Data Cymru (adroddiad casglu data ar y gweithlu SCWDP, 2015-16). Darparodd hyn gyfanswm nifer y staff sy'n gweithio yn y sector, ond nid nifer y swyddi FTE. Defnyddiwyd data o'r adroddiad i amcangyfrif nifer y swyddi yn y sector gwirfoddolwyr a'r sector preifat. Mae'r data'n dangos nifer y gwasanaethau sydd wedi'u dadgyfuno gan ddarparwyr y sector gwirfoddol / preifat, ac mae'r gymhareb hon wedi'i ddefnyddio gyda nifer y swyddi er mwyn amcangyfrif gweithlu'r sector gwirfoddol / preifat.

[11] Ac eithrio gwasanaethau'n ymwneud â phlant

Er mwyn amcangyfrif nifer y swyddi FTE yn y sector breifat a gwirfoddol, cafodd cyfran y staff a oedd yn gweithio'n llawn amser a rhan-amser yn y sector annibynnol a reoleiddir yng Nghymru ei gymryd o adroddiad casglu data'r gweithlu SCWDP (roedd 52% yn gweithio'n llawn amser). Tybiwyd bod gweithwyr llawn amser yn gweithio 37 awr yr wythnos; tybiwyd bod gweithwyr rhan-amser yn gweithio 18.5 awr yr wythnos. Rhoddodd hyn amcangyfrif bod 28 awr ar gyfartaledd yn cael eu gweithio bob wythnos, neu 0.76 o swyddi FTE fesul swydd.

Mae'r uchod yn disgrifio'r gweithlu yn y sector gofal cymdeithasol i oedolion yn y sector gyhoeddus a reoleiddir yng Nghymru. Amcangyfrifwyd y gweithlu sydd heb ei reoleiddio (y rhai nad ydynt yn destun arolygiadau CIW) gan ddefnyddio nifer y safleoedd heb eu rheoleiddio (gweler Tabl A1.1). Mae nifer y swyddi fesul safle sydd heb ei reoleiddio yn Lloegr (yn seiliedig ar ddata SfC) wedi'i luosi â nifer y safleoedd heb eu rheoleiddio yng Nghymru (gweler Tabl A1.2). Mae dosbarthiad y swyddi ar draws gwahanol fathau o ddarpariaeth gofal cymdeithasol i oedolion yn seiliedig ar ddosbarthiad swyddi heb eu rheoleiddio yn Lloegr, wedi'i gyfrifo gan ddefnyddio data SfC (gweler Tabl A1.3).

Tabl A1.2 Amcangyfrif o nifer y gweithwyr cyflogedig heb eu rheoleiddio

| | Gofal preswyl | Gwaith cymdeithasol | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| Amcangyfrif o nifer y safleoedd gofal cymdeithasol i oedolion heb eu rheoleiddio | 260 | 220 | 480 |
| Amcangyfrif o nifer y swyddi fesul safle | 16.5 | 14.9 | |
| Amcangyfrif o nifer y swyddi heb eu rheoleiddio | 4,300 | 3,300 | 7,500 |

*Ffynhonnell: IDBR; CIW, ("016) Adroddiad Blynyddol y Prif Arolygwr, 2015-16; Cronfa ddata o wasanaethau a reoleiddir gan CIW; Data SfC; Dyraniadau ICF. Data wedi'u talgrynnu i'r 10 agosaf.*

Tabl A1.3 Amcangyfrif o ddosbarthiad safleoedd a swyddi heb eu rheoleiddio

| Is-sector | Nifer y safleoedd | Nifer y swyddi | % |
|---|---|---|---|
| Preswyl | 260 | 4,300 | 100% (preswyl) |
| Cartref | 40 | 600 | 18% gwaith cymdeithasol |
| Gofal dydd | 60 | 900 | 27% gwaith cymdeithasol |
| Eraill | 120 | 1,900 | 55% gwaith cymdeithasol |
| Cyfanswm | 480 | 7,700 | |

*Ffynhonnell: IDBR; CIW, ("016) Adroddiad Blynyddol y Prif Arolygwr, 2015-16; Cronfa ddata o wasanaethau a reoleiddir gan CIW; Data SfC; Dyraniadau ICF. Nifer y safleoedd wedi'u talgrynnu i'r 10 agosaf Nifer y swyddi wedi'u talgrynnu i'r 10 agosaf.*

## A1.3 Y dull incwm ar gyfer gwerth economaidd

### A1.3.1 Enillion

Mae'r wybodaeth am incwm a ddarparwyd yn ASHE, yn ôl arbenigwyr gofal cymdeithasol i oedolion, wedi goramcangyfrif yr enillion yn y sector yn holl wledydd y DU.[12] Nid oes unrhyw fath arall o wybodaeth yn cael ei chasglu yng Nghymru sy'n cyflwyno enillion yn y sector gofal cymdeithasol i oedolion. Felly, cafodd gwerth enillion yng Nghymru eu hamcangyfrif gan ddefnyddio amcangyfrifon SfC o enillion yn Lloegr a gwybodaeth gan ASHE, gan ddangos gwerth cymharol enillion yng Nghymru a Lloegr.[13]

[12] Nid yw amcangyfrifon ASHE y cynnwys gweithwy hunan gyflogedig na swyddi mewn busnesau nad oes gfyn iddynt fod wedi'u cofrestru gyda PAYE (cwmniau bach gyda cyflogau isel). Felly nid yw amcangyfrifon ASHE yn cynnwys nifer o swyddi gyda cyflogau isel, gall hyn arwain at or amcangyfrif o enillion.

[13] Casglwyd data gan ASHE ac LFS ar enillion yn y sector gofal cymdeitahsol i oedolion, yn seiliedig ar godau SIC priodol. Roedd y cymarebau rhwng enillion ym mhob gwlad yn debyg yn ASHE ac LFS. Dewiswyd data ASHE gan fod y gwerthoedd yn seiliedig ar sampl mwy.

Mae gwerth enillion yr awr[14] yn y sector gofal cymdeithasol i oedolion yng Nghymru wedi'i rannu ag enillion cyfartalog yr awr yn y sector yn Lloegr er mwyn sefydlu cymhareb yr enillion rhwng y ddwy wlad. Yna cafodd y gymhareb ei lluosi â'r gwerthoedd a gasglwyd gan SfC.

Mae Tabl A1.4 yn dangos amcangyfrif o enillion yng Nghymru yn 2016 yn ôl sector. Mae'r enillion yn cael eu gwahanu yn ôl math o wasanaeth a math o ddarparwr (y sector cyhoeddus a'r sector breifat a gwirfoddol).

Mae'r gwerthoedd hyn wedi'u defnyddio i amcangyfrif cyfanswm gwerth yr enillion drwy luosi'r enillion â nifer y swyddi FTE yn y sector gofal cymdeithasol i oedolion.

Tabl A1.4 Amcangyfrif o enillion yng Nghymru 2016

| Sector | Enillion yn Lloegr (FTE) | Cymhareb ASHE | Enillion yng Nghymru |
|---|---|---|---|
| ***Sector cyhoeddus*** | | | |
| Gofal preswyl | £19,500 | 99% | £19,400 |
| Gofal nyrsio | £18,900 | 99% | £18,800 |
| Gofal cartref | £20,400 | 89% | £18,100 |
| Gofal dydd | £20,700 | 89% | £18,300 |
| Arall | £29,600 | 89% | £26,300 |
| ***Y sector breifat / gwirfoddol*** | | | |
| Gofal preswyl | £15,900 | 99% | £15,800 |
| Gofal nyrsio | £16,900 | 99% | £16,800 |
| Gofal cartref | £16,200 | 89% | £14,400 |
| Gofal dydd | £18,100 | 89% | £16,100 |
| Arall | £19,000 | 89% | £16,900 |
| Cymorthwywr Personol (PAs) | £19,500 | 89% | £15,600 |

*Ffynhonnell: Data SfC; ASHE; Dyraniadau ICF; Gwerthoedd wedi'u talgrynnu i'r 100 agosaf*

## A1.3.2 Gwarged Gweithredu Gros

Diffinnir GOS fel incwm llai costau gweithredu (er enghraifft yr incwm a dderbynnir ar gyfer darparu awr o ofal cartref llai costau staff, trafnidiaeth a deunyddiau). Wrth amcangyfrif GOS, tybir mai dim ond darparwyr gofal y sector preifat a ddarperir 'am elw', ac felly'n cynhyrchu GOS.

**Mae'n bwysig nodi nad yw'r GOS yn gyfwerth â'r elw y mae perchnogion a chyfranddalwyr yn ei gymryd**. Dim ond is-set o gyfanswm y costau sydd wedi'u cynnwys yn y cyfrifiad GOS. Nid yw costau tymor hir fel y defnydd o gyfalaf sefydlog, (dibrisiant ac amorteiddio), pryniannau eithriadol, taliadau llog, trethi a rhenti wedi'u hepgor. Mae'n gyfwerth ag enillion cyn llog, trethi, dibrisiant, amorteiddio a chostau ailstrwythuro neu rent (EBITDAR).[15]

[14] Dewiswyd enillion yn ôl yr awr gan fod nifer yr ymatebion ar gyfer enillion yn ôl yr awr yn fwy ac nid yw'n cynnwys unrhyw wahaniaethau posibl eraill yn yr oriau a weithiwyd neu fuddiannau gweithwyr cyflogedig.

[15] Mae'r gwerth EBITDAR wedi'i ddefnyddio yn y dadansoddiad gan mai dyma'r dull sy'n cael ei ffafrio yn adroddiad LaingBuisson a dandansoddiad CMA o'r farchnad. Defnyddir y dull EBITDA, lle tybir bod rhenti a chostau ailstrwythuro yn gostau gweithredu, yn y dadansoddiadau sensitifrwydd yn **Error! Reference source not found.**

Mae'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd (CMA, 2017) yn darparu asesiad manylach o GOS yn y sector gofal preswyl. Roedd hyn yn archwilio costau blynyddol yr holl weithredwyr gofal preswyl yn y DU y mae gofyn iddynt gadw eu cyfrifon yn Nhŷ'r Cwmnïau. Yn 2015/16 (y flwyddyn ddiweddaraf yr oedd gwybodaeth gynhwysfawr ar gael), casglwyd bod y GOS yn y sector tua 16%. Defnyddiwyd 16% yn y dadansoddiad. Dylid nodi mai rhagdybiaeth symlach yw hyn ar gyfer y cifrifiad, yn hytrach na chynnal ymchwiol sylfaenol (gan archwilio cyfrifon blynyddol pob darparwr gofal cymdeithasol i oedolion) i amcangyfrif lefel y GOS. Mae 16% wedi'i luosi ag allbwn y sectorau gofal preswyl a nyrsio.

Amcangyfrifwyd y GOS ar gyfer darparwyr gofal cartref drwy ddefnyddio gwybodaeth gan Gymdeithas Gofal Cartref y DU (UKHCA, 2017). Amcangyfrifwyd bod GOS y farchnad gofal cartref yn 11.3% a 8.3% i ddarparwyr gwirfoddol.  Roedd amcangyfrif GOS yn cynnwys y manylion costau canlynol er mwyn cyfri GOS (gan ymgeisio bod yn debyf i EBITDAR):

- Costau gweithwyr gofal;
- Staff, recriwtio a hyfforddi;
- Deunyddiau; a
- Costau proffesiynol.

Y costau a gafodd ei diystryu wrth amcangyfrif GOS yn gofal cartref oedd:

- Proffit net / gweddill (3%) – yn cynnwys ar gyfer amcangyfrif GOS yn y sector breifat, ond wedi cymryd fod hyn yn sero yn y sector gwirfoddol;
- Adeiladau, cyfleusterau a gwasanaethau (5.8%); a
- Costau busnes arall (3%).

Nid oes unrhyw wybodaeth ar gael ar gyfer gwerth GOS ar gyfer gofal dydd a gwasanaethau eraill. Felly, ni wnaed unrhyw ymgais i amcangyfrif y GOS yn y gwasanaethau hyn. Yn olaf, tybiwyd nad oes unrhyw GOS wrth gyflogi PAs – tybir eu bod yn cael eu cyflogi'n uniongyrchol ac nad oes unrhyw incwm ychwanegol uwchlaw eu cyflog.

### A1.3.3 Cyflogwyr uniongyrchol

Mae'r amcangyfrif o nifer y cyflogwr uniongyrchol a nifer y PAs a gyflogant yn seiliedig ar ddata Llywodraeth Cymru ac ymchwil SfC. Mae Llywodraeth Cymru yn darparu ystadegau sydd ar gael yn gyhoeddus sy'n dangos nifer yr unigolion sy'n derbyn taliadau uniongyrchol. Mae SfC yn amcangyfrif mai ychydig yn llai nag un rhan o dair o'r unigolion sy'n derbyn taliadau uniongyrchol sy'n cyflogi eu staff eu hunain (29%). Mae pob unigolyn sy'n cyflogi staff yn cyflogi  2.1 o weithwyr ar gyfartaledd.

Ar gyfartaledd, mae pob PA yn gweithio 17 awr yr wythnos (0.46 FTE). Tybir bod PA yn Lloegr yn derbyn cyflog o £17,500 (FTE). Defnydduiwyd y cyfrifiad fel eglurwyd yn adran A1.3.1 er mwyn amcangyfrif enillion yng Nghymru (gan lluosi enillion yn Lloegr gyda 80%), a oedd yn £15,600.

Mae nifer y FTE yn cael ei luosi ag enillion cyfartalog fesul FTE er mwyn amcangyfrif gwerth cyflogaeth uniongyrchol yng Nghymru.

## A1.4 Y dull gwariant ar gyfer gwerth economaidd

Mae Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi data sy'n cyflwyno gwerth gwariant a chyd-ariannu y sector cyhoeddus sy'n rhan o'r sector gofal cymdeithasol i oedolion. Caiff y data ei ddadgyfuno yn ôl y math o ddefnyddiwr a'r math o wasanaeth.

Fodd bynnag, nid yw'r data hwn yn cynnwys y gwariant gan yr hunan-arianwyr. Nid oes data sy'n darparu ystadegau ar nifer yr hunan-arianwyr na gwerth eu gwariant. Felly, cafwyd y wybodaeth o ddeunydd darllen cyfredol er mwyn amcangyfrif nifer a gwerth hunan-ariannu yng Nghymru.

Mae LaingBuisson (2017) yn amcangyfrif cyfran yr unigolion mewn gofal preswyl sy'n hunan-ariannu. Yng Nghymru, amcangyfrifir bod 31% o breswylwyr yn hunan-ariannu. Mae'r adroddiad yn llunio amcangyfrifon hefyd o holl bosibiliadau'r sector a chyfraddau defnyddio gwelyau. Gan ddefnyddio'r ffigurau hyn, mae'n bosibl amcangyfrif nifer yr hunan-arianwyr (gweler Tabl A1.5).

Mae Llywodraeth Cymru yn llunio ystadegau sy'n dangos nifer y bobl sy'n derbyn cyllid am ofal cartref, achosion dydd a gwasanaethau gofal cymdeithasol eraill. Fodd bynnag, unwaith eto nid oes unrhyw ystadegau ar gael i ddangos nifer yr unigolion sy'n hunan-ariannu eu gofal. Cynhaliwyd adolygiad o'r dystiolaeth er mwyn dod o hyd i dystiolaeth o nifer y bobl sy'n hunan-ariannu eu gofal cymdeithasol dibreswyl. Cafwyd amrywiaeth eang o amcangyfrifon fel a ganlyn:

- 20% o unigolion sy'n derbyn gofal cartref yn y DU yn hunan-ariannu eu gofal cartref;[16]
- 21% o unigolion yn derbyn gofal cartref;[17]
- Rhwng 20% a 25% o unigolion yn derbyn gofal cartref, yn seiliedig ar astudiaethau rhwng 2004 a 2011;[18]
- 30% o unigolion yn derbyn gofal cartref yn Lloegr;[19] a
- 35% o wariant ar ofal cartref yn Lloegr.[20]

Defnyddiwyd rhain i helpu i amcangyfrif nifer yr unigolion sy'n hunan-ariannu eu gofal. Yn y dadansoddiad o'r prif adroddiad, tybiwyd bod 21% o unigolion yng Nghymru yn hunan-ariannu eu gofal cartref a'u gofal dydd. Mae hyn yn seiliedig ar y dadansoddiad bod 30% o unigolion yn Lloegr yn hunan-ariannu eu gofal dibreswyl - fodd bynnag, yn Lloegr, mae 43% o unigolion yn hunan-ariannu eu gofal preswyl (o gymharu â 31% yng Nghymru). Mae addasu'r ffigwr o 30% i gyd-fynd â hyn yn arwain at amcangyfrif bod 21% o unigolion yng Nghymru yn hunan-ariannu eu gofal dibreswyl.

Ar gyfer gwasanaethau eraill, nid yw'n bosibl gwahanu nifer yr unigolion sy'n talu am eu gofal eu hunain, oherwydd natur amrywiol y gwasanaethau a phrisiau gwasanaethau. Felly, tybiwyd bod 21% o gyfanswm yr allbwn ar gyfer gwasanaethau eraill yng Nghymru wedi'i hunan-ariannu.

Tabl A1.5 Amcangyfrifon o nifer yr hunan-arianwyr, Cymru

| Math o ddarpariaeth | Cyfanswm nifer yr unigolion sy'n derbyn cymorth | Cyfran yr unigolion sy'n hunan-ariannu | Nifer y rhai sy'n hunan-ariannu |
|---|---|---|---|
| Gofal preswyl | 7,100 | 31% | 2,200 |
| Gofal preswyl gyda nyrsio | 11,100 | 51% | 3,500 |
| Gofal Cartref | 29,400 | 22% | 6,400 |

16 HM Government (2012) Caring for our future: reforming care and support; Institute of Public Care, Oxford Brookes (2015) Understanding the self-funding market in social care A toolkit for commissioners

17 Cymdeithas Cartrefi Gofal y DU (2016) An overview of the Domiciliary Care Market in the UK

18 People who fund their own social care Sefydliad Cenedlaethol ar gyfer Ymchwil Iechyd (2014)

19 Personal Social Services Research Unit (2015) Projections of Demand for and Costs of Social Care for Older People and Younger Adults, 2015 to 2035

20 LaingBuisson

| Math o ddarpariaeth | Cyfanswm nifer yr unigolion sy'n derbyn cymorth | Cyfran yr unigolion sy'n hunan-ariannu | Nifer y rhai sy'n hunan-ariannu |
|---|---|---|---|
| Achosion Dydd | 10,100 | 22% | 2,200 |

*Ffynhonnell: LaingBuisson (2017) Care of Older People; Llywodraeth Cymru; Dyraniadau ICF; Gwerthoedd wedi'u talgrynnu i'r 10 agosaf*

Tybir bod y defnydd o wasanaethau gan hunan-arianwyr yr un fath â'r defnydd o wasanaethau gan unigolion a gyllidir. Dyma mae hyn yn ei golygu:

- Mae defnyddwyr gofal preswyl angen 52 wythnos o ofal y flwyddyn;
- Mae defnyddwyr gofal cartref angen pum awr o ofal yr wythnos (260 awr y flwyddyn); a
- Mae defnyddwyr gofal dydd angen 2.5 sesiwn o ofal dydd yr wythnos (260 awr y flwyddyn).

Tybir bod y gost fesul uned ar gyfer hunan-arianwyr yn uwch nag ar gyfer unigolion a gyllidir. Roedd gwaith ymchwil blaenorol yn amcangyfrif bod hyn yn gynnydd o 20%, ond mae'r astudiaeth ddiweddaraf gan CMA (2017) a LaingBuisson (2017) yn amcangyfrif bod y cynnydd dros 40%. Mae'r 46% yr amcangyfrifir gan LaingBuisson (2017) wedi cael ei ddefnyddio i amcangyfrif cost yr uned ar gyfer y rhai sy'n talu eu hunain am ofal preswyl. Mae cynnydd o 20% wedi'i ddefnyddio ar gyfer gofal cartref. Mae'r cynnydd wedi'i ychwanegu at werth gofal a gyllidir. Mae'r amcan gost gofal cymdeithasol fesul uned ar gyfer hunan-arianwyr yng Nghymru wedi'i gyflwyno yn Nhabl A1.6.

Mae nifer yr hunan-arianwyr yn cael ei luosi â chost y gofal fesul uned ar gyfer hunan-arianwyr a maint y gofal sydd ei angen arnynt. Mae hyn yn rhoi cyfanswm gwerth y farchnad hunan-ariannu yng Nghymru. Caiff hyn ei ychwanegu wedyn at werth gwariant cyhoeddus a chyd-ariannu er mwyn amcangyfrif cyfanswm y gwariant yn y sector gofal cymdeithasol i oedolion.

Tabl A1.6 Costau fesul uned ar gyfer gofal yng Nghymru

| | Cost fesul uned ar gyfer unigolion a gyllidir | Cost fesul uned ar gyfer y rhai sy'n hunan-ariannu |
|---|---|---|
| Gofal preswyl | £490 / wythnos | £710 / wythnos |
| Gofal preswyl gyda nyrsio | £580 / wythnos | £810 / wythnos |
| Gofal cartref | £22 / awr | £26 / awr |
| Achosion dydd | £65 / sesiwn | £78 / sesiwn |

*PSSRU, Unit Cost of Health and Social Care, 2016; LaingBuisson; Dyraniadau ICF; Cost gofal preswyl wedi'i dalgrynnu i'r £10 agosaf.*

## A1.5 Y dull allbwn ar gyfer gwerth economaidd

Mae'r dull allbwn ar gyfer amcangyfrif gwerth economaidd gofal cymdeithasol i oedolion yn lluosi graddau'r gwasanaethau a ddefnyddir gan unigolion yng Nghymru â chost fesul uned ar gyfer pob math o ddarpariaeth.

Mae nifer yr unigolion sy'n defnyddio pob math o wasanaeth yn cael ei gyflwyno yn Nhabl 5.1, Tabl 5.2 a Thabl 5.3 o'r brif adroddiad. Mae hwn yn cynnwys unigolion sy'n derbyn cyllid ar gyfer eu gofal ac unigolion sy'n hunan-ariannu eu gofal. Mae'r costau fesul uned a ddefnyddir yn y cyfrifiadau wedi'u cymryd o adroddiad PSSRU (2016). Rhannwyd cost gofal cymdeithasol oedolion yng Nghymru (a gymerwyd o LaingBuisson, 2017) gan y costau yn Lloegr, i sefydlu'r gymhareb o enillion rhwng y ddwy wlad. Yna cymharwyd y gymhareb â chostau'r uned o ymchwil PSSRU i amcangyfrif y costau yng Nghymru.

## A1.6 Effeithiau anuniongyrchol ac a achosir

Er mwyn priodoli allbwn/gwariant i ddarparwyr y sector cyhoeddus, defnyddiwyd data ar gapasiti'r gweithlu a chartrefi gofal. Mae tablau I-O y DU yn cynhyrchu amcangyfrifon o effeithiau lluosyddion Math I, ac yn darparu data sy'n golygu y gellir cyfrifo lluosyddion Math II ac effeithiau a achosir. Mae'r dull a ddefnyddiwyd wedi'i ddisgrifio isod:

- Mae'r Llyfr Glas yn awgrymu tueddiad ymylol o 70.5% (amcangyfrifir fel defnydd gan aelwydydd fel canran o gyfanswm incwm), sydd wedi'i ddefnyddio yn y cyfrifiadau hyn.
- Cafodd y tueddiad ymylol mewn defnydd ei gymhwyso yn erbyn cyfanswm incwm/GVA uniongyrchol ac anuniongyrchol ar gyfer y sector gofal o dablau I-O y DU, er mwyn amcangyfrif gwariant cyflogau'r rhai a gyflogir yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol gan y sector gofal.
- Mae tablau I-O y DU yn cynnwys defnydd aelwydydd yn ôl sector a chafodd hyn ei ddefnyddio i ddadgyfuno'r cyflogau sy'n cael eu gwario gan y sector.
- Cyfrifwyd metrigau i amcangyfrif GVA a chyflogaeth a gefnogir gan y gwariant hwn gan aelwydydd ym mhob un o'r 127 sector sydd wedi'u cynnwys yn nhablau I-O y DU. Roedd hwn yn defnyddio data gan ABS, sy'n golygu y gellir llunio metrigau ar gyfer sectorau ar lefel wedi'i dadgyfuno. Yna gellir eu mapio ar dablau I-O y DU.
- Y cam olaf oedd adio'r GVA a'r gyflogaeth a gefnogir ym mhob sector o wariant aelwydydd o'r cyflogau a dderbyniwyd, ac yna fe'i defnyddiwyd i lunio amcangyfrifon o luosyddion a achosir ar gyfer gwario'r cyflogau a enillir yn y sector gofal.

Er mwyn amcangyfrif yr effaith anuniongyrchol ac a achosir wedi'i dadgyfuno gan y sector cyhoeddus, preifat ar sector wirfoddol, roedd angen cyfrifo'r allbwn / gwariant a gynhyrchwyd gan y sector cyhoeddus, preifat a gwirfoddol. Gwnaethpwyd hyn gan ddefnyddio gwybodaeth am allbwn darparwyr y sector cyhoeddus, preifat a gwirfoddol yn y sector preswyl a nyrsio, a'r canran o gyfanswm cyflogaeth y sector cyhoeddus/ preifat/ gwirfoddol o ddata'r gweithlu.

# Annex 2 Dadansoddiad sensitifrwydd

Mae'r atodiad hwn yn darparu dadansoddiad sensitifrwydd o amcangyfrifon o faint, strwythur a gwerth economaidd y sector gofal cymdeithasol i oedolion yng Nghymru. Mae rhai o'r cyfrifiadau a ddefnyddiwyd i amcangyfrif maint, strwythur a gwerth economaidd y sector yn cynnwys rhagdybiaethau a thrin data. Yn y dadansoddiad sensitifrwydd, roedd rhai o'r rhagdybiaethau hyn yn amrywio, i ddangos pa mor sensitif yw'r canlyniadau cyffredinol mewn perthynas â'r rhagdybiaethau hyn. Mae'r dadansoddiad sensitifrwydd yn cyflwyno amrywiaeth o werthoedd (amcangyfrif uchel ac isel) o werth y sector gofal cymdeithasol i oedolion yng Nghymru.

Mae'r adrannau isod yn dangos y rhagdybiaethau ac mae'r rhain wedi amrywio, yn ogystal â'r gwerthoedd a ddefnyddiwyd yn y cyfrifiadau hyn. Ar wahân i'r newidiadau hyn, mae'r cyfrifiadau a wnaethpwyd yn union fel y nodwyd yn y prif adroddiad a 0. Mae canlyniadau terfynol y dadansoddiad sensitifrwydd (Cyflogaeth, gwariant / allbwn a GVA) wedi'u cyflwyno, ond nid yw'r tablau canolraddol (sydd wedi'u cynnwys yn y prif adroddiad) wedi'u hail-greu ar gyfer dadansoddiad sensitifrwydd.

## A2.1 Maint a strwythur y sector gofal cymdeithasol i oedolion yng Nghymru

Mae'r rhagdybiaethau ynghylch nifer y safleoedd heb eu rheoleiddio sy'n darparu gofal cymdeithasol i oedolion a nifer y swyddi ym mhob safle heb ei reoleiddio wedi amrywio yn y dadansoddiad sensitifrwydd. Mae'r rhagdybiaethau amrywiol wedi'u cyflwyno yn Nhabl A2.1.

Cyflwynir canlyniadau'r rhagdybiaethau amrywiol yn Nhabl A2.2. Dengys nad yw'r amcangyfrif o nifer y safleoedd sy'n darparu gofal cymdeithasol i oedolion yn amrywio'n sylweddol er gwaethaf y ffaith fod y rhagdybiaethau wedi'u hamrywio. Mae hyn oherwydd bod y mwyafrif o safleoedd sy'n darparu gofal cymdeithasol i oedolion wedi'u rheoleiddio.

Mae nifer y swyddi FTE yn y sector yn amrywio hefyd. Unwaith eto, nid oes fawr o wahaniaeth yn y cyfanswm cyflogaeth (gwahaniaeth o 2,400 rhwng yr amcangyfrif uchaf ac isaf, neu 4% o'r amcangyfrif isel). Unwaith eto, mae hyn oherwydd bod y rhan fwyaf o'r gweithlu yn perthyn i'r sector a reoleiddir.

Tabl A2.1 Roedd rhagdybiaethau'n amrywio yn y dadansoddiad sensitifrwydd o faint a strwythur y sector gofal cymdeithasol i oedolion

| | Isel | Canolig | Uchel | Cyfrifiad |
|---|---|---|---|---|
| Nifer y safleoedd heb eu rheoleiddio sy'n darparu gofal cymdeithasol i oedolion | 460 | 480 | 530 | +/- 5%, i adlewyrchu ansicrwydd |
| Nifer y swyddi fesul safle heb ei reoleiddio – gofal preswyl | 14.9 | 16.5 | 18.2 | +/- 5%, i adlewyrchu ansicrwydd |
| Nifer y swyddi fesul safle heb ei reoleiddio – gwaith cymdeithasol | 13.4 | 14.9 | 16.4 | +/- 5%, i adlewyrchu ansicrwydd |

Tabl A2.2 Canlyniadau'r dadansoddiad sensitifrwydd o faint a strwythur y sector gofal cymdeithasol i oedolion yng Nghymru

| | Isel | Canolig | Uchel |
|---|---|---|---|
| ***Safleoedd*** | | | |
| Gofal preswyl | 510 | 530 | 540 |
| Gofal nyrsio | 820 | 820 | 820 |
| Gofal cartref | 520 | 520 | 520 |
| Gofal dydd | 60 | 60 | 60 |
| Gwasanaethau eraill | 120 | 130 | 130 |
| Cyfanswm safleoedd | 2,030 | 2,060 | 2,080 |
| ***Swyddi (FTE)*** | | | |
| Gofal preswyl | 17,900 | 18,300 | 18,800 |
| Gofal nyrsio | 5,500 | 5,500 | 5,500 |
| Gofal cartref | 17,100 | 17,200 | 17,200 |
| Gofal dydd | 6,800 | 6,900 | 7,000 |
| Gwasanaethau eraill | 11,800 | 12,100 | 12,200 |
| Cyfanswm | 59,100 | 60,000 | 60,800 |

## A2.2 Y dull incwm ar gyfer gwerth economaidd

Mae Tabl A2.3 yn cyflwyno'r rhagdybiaethau sydd wedi'u hamrywio ar gyfer amcangyfrifon y dull incwm. Mae'r rhain yn cynnwys nifer y swyddi yn y sector, amcangyfrif o enillion cyfartalog a lefel yr elw a gynhyrchir gan y sector. Mae'r rhain wedi'u hamrywio gan eu bod oll yn cynnwys yr holl ragdybiaethau a chyfrifiadau, yn hytrach na'u bod yn cael eu tynnu'n uniongyrchol o ffynonellau data.

Tabl A2.3 Roedd rhagdybiaethau'n amrywio yn y dadansoddiad sensitifrwydd o'r dull incwm

| | Isel | Canolig | Uchel | Cyfrifiad | Cyflog Byw Cenedlaethol |
|---|---|---|---|---|---|
| Nifer y swyddi | Gweler Tabl A2.2 | | | | |
| ***Enillion cyfartalog – sector cyhoeddus*** | | | | +/- 5% i adlewyrchu ansicrwydd | |
| Gofal preswyl (£) | 18,500 | 19,400 | 20,400 | | 20,400 |
| Gofal nyrsio (£) | 17,900 | 18,800 | 19,700 | | 19,700 |
| Gofal cartref (£) | 17,200 | 18,100 | 19,000 | | 19,000 |
| Gofal dydd (£) | 17,400 | 18,300 | 19,300 | | 19,300 |
| Gwasanaethau eraill (£) | 25,000 | 26,300 | 27,600 | | 27,600 |
| ***Enillion cyfartalog – sector annibynnol*** | | | | | |
| Gofal preswyl (£) | 15,000 | 15,800 | 16,600 | | 17,700 |
| Gofal nyrsio (£) | 15,900 | 16,800 | 17,600 | | 17,700 |
| Gofal cartref (£) | 14,400 | 14,400 | 15,100 | | 17,700 |
| Gofal dydd (£) | 15,300 | 16,100 | 16,900 | | 17,700 |
| Gwasanaethau eraill (£) | 16,000 | 16,900 | 17,700 | | 17,700 |
| Cymorthwywr personol | 14,800 | 15,400 | 16,400 | | 17,700 |

| | Isel | Canolig | Uchel | Cyfrifiad | Cyflog Byw Cenedlaethol |
|---|---|---|---|---|---|
| GOS - gofal preswyl | 7.5% | 16% | 19.5% | EBITDA; EBITDAR (CMA; EBITDAR LB) | |
| GOS – gofal cartref | 2% | 3% | 5% | Adroddiad UKHCA | |

Cyflwynir canlyniadau'r dadansoddiad sensitifrwydd yn 0. Mae hyn yn dangos pan fo'r rhagdybiaethau ar gyfer y cyfrifiadau yn amrywio, mae cyfanswm gwerth y GVA a gynhyrchir yn y sector gofal cymdeithasol i oedolion yn amrywio £209 miliwn. Mae hyn yn cynrychioli 20% o amcangyfrif isel y sector gofal cymdeithasol i oedolion. Mae'r gwahaniaethau mwyaf i'w gweld yn y sectorau gofal preswyl a nyrsio, gan fod mwy o elfennau GVA wedi'u haddasu (enillion, swyddi a GOS).

Tabl A2.4 Canlyniadau o ddadansoddiad sensitifrwydd y dull incwm

| Amcangyfrif o GVA | Isel (£'000) | Canolig (£'000) | Uchel (£'000) | Cyflog Byw Cenedlaethol (£'000) |
|---|---|---|---|---|
| Gofal preswyl | 289,534 | 328,012 | 359,587 | 360,636 |
| Gofal nyrsio | 113,861 | 150,317 | 170,788 | 155,308 |
| Gofal cartref | 275,340 | 292,226 | 321,522 | 341,434 |
| Gofal dydd | 107,330 | 114,643 | 122,084 | 124,298 |
| Gwasanaethau eraill | 226,082 | 242,761 | 257,141 | 254,457 |
| Taliadau uniongyrchol | 24,272 | 25,549 | 26,827 | 28,979 |
| **Cyfanswm** | **1,036,429** | **1,153,549** | **1,257,950** | **1,265,112** |

## A2.3 Y dull gwariant ar gyfer gwerth economaidd

Mae'r rhagdybiaethau sydd wedi amrywio ar gyfer dadansoddiad sensitifrwydd y dull gwariant ar gyfer mesur gwerth y sector wedi'u cyflwyno yn Nhabl A2.5. Pan fo data wedi'i gymryd yn uniongyrchol o ystadegau swyddogol ac nad oedd angen ei amcangyfrif neu ei drin ymhellach, ni wnaethpwyd dadansoddiad sensitifrwydd. Felly, cynhaliwyd dadansoddiad sensitifrwydd yn unig ar gyfer hunan-arianwyr - cyfran y defnyddwyr gwasanaethau sy'n hunan-ariannu, a chost fesul uned ar gyfer gofal wedi'i hunan-ariannu.

Tabl A2.5 Roedd rhagdybiaethau'n amrywio yn y dadansoddiad sensitifrwydd o'r dull gwariant

| | Isel | Canolig | Uchel | Cyfrifiad |
|---|---|---|---|---|
| Cyfran yr hunan-arianwyr | | | | +/- 5% i adlewyrchu ansicrwydd; |
| Gofal preswyl | 29.8% | 31.4% | 33.0% | |
| Gofal nyrsio | 29.8% | 31.4% | 33.0% | |
| Gofal cartref | 17.2% | 21.7% | 24.3% | Tybir bod 25% o |

| | Isel | Canolig | Uchel | Cyfrifiad |
|---|---|---|---|---|
| Gofal dydd | 17.2% | 21.7% | 24.3% | wasanaethau gofal dibreswyl yn Lloegr i hunan-arianwyr (isel); mae 32% yn hunan-arianwyr (uchel). Yna caiff ei addasu i hunan-arianwyr yng Nghymru gan ddefnyddio cymhareb yr hunan-arianwyr yn Lloegr-Cymru ac mewn gofal preswyl. |
| Cyfran y ‘gwasanaethau eraill’ sydd wedi’u hunan-ariannu | 17.2% | 21.7% | 24.3% | |
| Cost fesul uned o ofal hunan-ariannu | | | | +/- 5% i adlewyrchu ansicrwydd |
| Gofal preswyl | £640 / wythnos | £710 / wythnos | £780 / wythnos | |
| Gofal nyrsio | £730 / wythnos | £810 / wythnos | £900 / wythnos | |
| Gofal cartref | £23 / awr | £26 / awr | £28 / awr | |
| Gofal dydd | £70 / sesiwn | £78 / sesiwn | £86 / sesiwn | |

Cyflwynir canlyniadau’r dadansoddiad sensitifrwydd yn Nhabl A2.6. Mae hyn yn dangos ystod yn yr amcangyfrifon o £101 miliwn oherwydd y newidiadau i’r rhagdybiaethau. Mae hyn yn cynrychioli 9% o amcangyfrif isel cyfanswm GVA y sector gofal cymdeithasol i oedolion.

Tabl A2.6 Canlyniadau’r dadansoddiad sensitifrwydd o’r dull gwariant

| Amcangyfrif GVA | Isel (£’000) | Canolig (£’000) | Uchel (£’000) |
|---|---|---|---|
| Gofal preswyl | 492,880 | 502,078 | 511,943 |
| Gofal nyrsio | 193,146 | 210,656 | 229,772 |
| Gofal cartref | 163,809 | 179,771 | 190,747 |
| [i]Gofal dydd | 65,343 | 68,841 | 71,896 |
| Gwasanaethau eraill | 192,926 | 200,342 | 204,613 |
| Taliadau eraill | 41,272 | 41,272 | 41,272 |
| **Cyfanswm** | **1,149,376** | **1,202,959** | **1,250,243** |

## A2.4 Y dull allbwn ar gyfer gwerth economaidd

Fel gyda’r dadansoddiad sensitifrwydd ar gyfer y dull gwariant, yr unig werthoedd sydd wedi’u haddasu yw’r rhai yr oedd gofyn eu hamcangyfrif a thrin data ar eu cyfer. Ar gyfer y dull allbwn, roedd hyn yn golygu cost fesul uned o ofal cymdeithasol i oedolion a nifer y defnyddwyr gofal. Mae’r gwerthoedd a ddefnyddiwyd yn y dadansoddiad sensitifrwydd wedi’u cyflwyno yn 0.

Tabl A2.7 Roedd rhagdybiaethau'n amrywio yn y dadansoddiad sensitifrwydd o'r dull allbwn

| | Isel | Canolig | Uchel | Cyfrifiad |
|---|---|---|---|---|
| Cost fesul uned o ofal cymdeithasol i oedolion | | | | +/- 5% i adlewyrchu ansicrwydd |
| Gofal preswyl - darpariaeth gyhoeddus | £920 / wythnos | £970 / wythnos | £1,020 / wythnos | |
| Gofal preswyl - darpariaeth breifat | £540 / wythnos | £570 / wythnos | £600 / wythnos | |
| Gofal nyrsio | £650 / wythnos | £680 / wythnos | £710 / wythnos | |
| Gofal cartref | £22 / awr | £23 / awr | £24 / awr | |
| Gofal dydd | £63 / sesiwn | £67 / sesiwn | £72 / sesiwn | |
| Gofal preswyl ar gyfer oedolion iau | £940 / wythnos | £990 / wythnos | £1,040 / wythnos | |
| Derbynyddion taliad uniongyrchol | £14 / awr | £15 / awr | £16 / awr | |
| Nifer defnyddwyr gofal sy'n hunan-ariannu | Gweler 0 | | | |

Cyflwynir canlyniadau'r dadansoddiad sensitifrwydd yn Nhabl A2.8. Dengys hyn drwy amrywio'r rhagdybiaethau ar gyfer cost gofal fesul uned a nifer yr unigolion sy'n hunan-ariannu eu gofal, mae'r canlyniadau ar gyfer gwerth gofal cymdeithasol i oedolion yn amrywio rhwng £1.1 biliwn a £1.3 biliwn. Mae hyn yn cynrychioli gwahaniaeth o £108 miliwn rhwng amcangyfrifon uchel ac isel, neu 10% o werth isel y sector.

Tabl A2.8 Canlyniadau'r dadansoddiad sensitifrwydd o'r dull allbwn

| Amcangyfrif GVA | Isel (£'000) | Canolig (£'000) | Uchel (£'000) |
|---|---|---|---|
| Gofal preswyl | 365,166 | 386,037 | 404,932,692 |
| Gofal nyrsio | 340,592 | 357,304 | 354,039,302 |
| Gofal cartref | 170,441 | 186,402 | 202,846,689 |
| Gofal dydd | 38,160 | 43,226 | 47,702,212 |
| Gwasanaethau eraill | 192,926 | 200,342 | 204,613,273 |
| Taliadau uniongyrchol | 10,221 | 10,951 | 11,681,427 |
| **Cyfanswm** | **1,117,506** | **1,184,262** | **1,225,816** |

# Annex 3 Llyfryddiaeth


- BUPA (2011) A Fair Deal – Ensuring Local Authority Fee Levels Reflect the Real Costs of Caring for Vulnerable Older People,
- CarersUK (2015) Valuing Carers 2015
- Yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd (2017) Care Homes Market Study
- Uned Ddata – Cymru (2016) Casgliad Data SCWDP ar y gweithlu 2016
- Llywodraeth Ei Mawrhydi (2012) Caring for our future: reforming care and support;
- Y Sefydliad Gofal Cyhoeddus (SGC), Oxford Brookes (2015) Understanding the self-funding market in social care A toolkit for commissioners
- SGC (2011) How to commission the adult social care workforce: A practical guide for commissioners
- LaingBuisson (2017) Care of Older People
- LaingBuisson a Joseph Rowntree Foundation (2008) Calculating a Fair Price for Care
- Sefydliad Cenedlaethol ar gyfer Ymchwil Iechyd (2014) People who fund their own social care
- OPM (2013) Older people who self-fund their social care: A guide for health and wellbeing boards and commissioners
- Personal Social Services Research Unit (2015) Projections of Demand for and Costs of Social Care for Older People and Younger Adults, 2015 to 2035
- Personal Social Services Research Unit (2016) The unit cost of health and social care
- Sgiliau Gofal (2016) The Size and Structure of the Adult Social Care sector, 2016
- Sgiliau Gofal (2017) 'Individual employers and Personal Assistants'
- Cymdeithas Gofal Cartref y DU (2016) An overview of the Domiciliary Care Market in the UK
- Comisiwn y DU dros Gyflogaeth a Sgiliau (2016) Working Futures
- Cymdeithas Gofal Cartref y DU (2018) A Minimum Price for Homecare
- Prifysgol East Anglia (2010) Buyer Power and Price Discrimination: The Case of the UK Care Homes Market